



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Adolygiad o Gyllido Gwaith leuenctid:

Cam 2

Mawrth 2024



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

Teitl: Adolygiad o Gyllido Gwaith Ieuenctid

Is-deitl: Cam 2

Awdur(on): Mandy Robbins (Prifysgol Wrecsam), Nichola Welton (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant), Darrel Williams (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant), Robert Leigh (Prifysgol Wrecsam), Louise Cook (Prifysgol Metropolitan Caerdydd), Darren O'Connor (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant) ac Alex Drury, (Prifysgol Wrecsam).

Mae'r barnau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn rhai'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd yn rhai Llywodraeth Cymru

Er mwyn cael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Y tîm ymchwil: Athro Mandy Robbins: Mandy.Robbins@wrexham.ac.uk

Is-adran: Cangen Ymgysylltu Ieuenctid

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn:

Ebost: Youthwork@gov.Wales

Tabl cynnwys

| | |
|-------------------------------|----|
| Rhestr Tablau | 2 |
| Rhestr ffigurau | 3 |
| Geirfa..... | 4 |
| 1. Rhagarweiniad/Cefndir..... | 5 |
| 2. Methodoleg/Dulliau..... | 13 |
| 3. Canfyddiadau | 22 |
| 4. Casgliadau | 72 |
| 5. Argymhellion | 76 |
| Adran gyfeiriol | 79 |
| Atodiad A | 82 |
| Atodiad B. | 84 |
| Atodiad C | 93 |
| Atodiad D | 95 |

Rhestr Tablau

| | |
|--|----|
| Tabl 2.1 Pobl a Gymerodd Ran mewn Grwpiau Ffocws Sioeau Penffordd/Grwpiau Ffocws/Cyfweliadau..... | 17 |
| Tabl 3.1 Ffynonellau Incwm Sector Gwirfoddol fel Canran o'r Cyfanswm Incwm..... | 26 |
| Tabl 3.2 Cyfran yr Incwm o Bob Ffynhonnell 2020.21 - 2022.23 - Sector Gwaith Ieuenctid Statudol | 29 |
| Tabl 3.3 Pennu cyllideb Grant Cefnogi Ieuenctid Llywodraeth Cymru | 40 |
| Tabl 3.4 Cyllideb Graidd Gwasanaeth Ieuenctid pob Awdurdod Lleol fel Canran o Setliad Refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwaith Ieuenctid..... | 56 |

Rhestr ffigurau

| | |
|--|----|
| Ffigur 2.1. Dulliau Cymysg: Dyluniad Cydgyfeiriol (Dyluniad Un Cam)) | 13 |
| 13 | |
| Ffigur 3.1 Cyfanswm Incwm Sector Gwaith Ieuenctid Statudol 2010-2023..... | 23 |
| Ffigur 3.2 Tueddiadau yn y Cymorth Grant i Fudiadau Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol | 30 |
| Ffigur 3.3 Ffynonellau Gwybodaeth Gyllido a Ddefnyddiwyd gan Ymatebwyr Sector Gwirfoddol..... | 34 |
| Ffigur 3.4 Rhwystrau Rhag Gallu Dod o Hyd i Gyllid i Ymatebwyr Sector Gwirfoddol | 35 |
| Ffigur 3.5 Hyd y Cyfnodau Cyllido a Adroddwyd gan Ymatebwyr i'n Holiadur Sector Gwirfoddol..... | 41 |
| Ffigur 3.6 Cyfanswm y Staff Statudol Fesul Rolau Swyddi Rhwng 2010-2023 | 50 |
| Ffigur 3.7a. 2010-2011 Cyfanswm Dyraniad Gwariant i Wasanaethau Gwasanaethau Ieuenctid Statudol | 51 |
| Ffigur 3.7b. 2022-2023 Cyfanswm Dyraniad Gwariant i Wasanaethau Gwasanaethau Ieuenctid Statudol | 52 |
| Ffigur 3.8 Cyfanswm Dyraniad Gwariant ymatebwyr Sector Gwirfoddol ar gyfer 2022.23 | 53 |
| Ffigur 3.9 Enghraifft o Broses Pennu Cyllideb Flynyddol Awdurdod Lleol | 58 |

Geirfa

Testun geirfa

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|-----------------------------------|---|
| GPCh | Grant Plant a Chymunedau |
| MPD | Mynegai Prisiau Defnyddwyr |
| CGSau | Cynghorau Gwirfoddol Sirol |
| CGIGC | Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru |
| TA | Trethi Annomestig |
| SYG | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| PSI | Prif Swyddog Ieuenctid |
| ACD | Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth |
| GCR | Grant Cynnal Refeniw |
| Grŵp ffocws sioe penffordd | Digwyddiadau grwpiau ffocws gyda Mudiadau Sector Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol |
| GMGIGS | Grant Mudiadau Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol Strategol |
| SGIG | Sector Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol |
| CGGC | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| GCI | Y Grant Cymorth Ieuenctid |

1. Rhagarweiniad/Cefndir

- 1.1 Yn 2018 cafodd y Bwrdd Gwaith Ieuencid Interim y cyfrifoldeb o ddatblygu argymhellion ar gyfer model cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuencid yng Nghymru. Yr argymhellion hyn oedd y symbyliad ar gyfer yr ymchwil hwn. Pedwerydd argymhelliad (allan o bedwar ar ddeg) y Bwrdd Gwaith Ieuencid Interim oedd cynnal adolygiad annibynnol i ddigonolrwydd, tryloywder, atebolrwydd ac effeithiolrwydd cyllid a gwariant ar wasanaethau gwaith ieuencid ledled Cymru er mwyn er mwyn asesu pa mor effeithiol oedd gweithgarwch gwaith ieuencid a'r effaith ar bobl ifanc (Atodiad A). Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cam dau yr Adolygiad o Gyllido Gwaith Ieuencid yng Nghymru a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru wrth ymateb i'r argymhelliad hwnnw.

Nod Ymchwil

- 1.2 Nod cyffredinol yr ymchwil hwn yw adolygu cyllido gwaith ieuencid ar draws Cymru yn rhannau gwirfoddol a statudol y sector gwaith ieuencid er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu model cyllido cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuencid yng Nghymru.

Cam 1

- 1.3 Roedd Cam 1 yr ymchwil hwn yn golygu cynnal astudiaeth ddichonoldeb ([Adolygiad o gyllido gwaith ieuencid: adroddiad cychwynnol | GOV.WALES](#)). Yr amcanion ar gyfer cam 1 oedd sefydlu pa ddata oedd ar gael ac i ba raddau allai ddiwallu gofynion cwrpas yr ymchwil arfaethedig ar gyfer camau 2 a 3. Roedd hyn yn cynnwys cynnal asesiad cyflym o dystiolaeth (REA) o'r llenyddiaeth/ymchwil empiraidd oedd ar gael ar arfer cyfredol perthnasol o ran dadansoddi cyllid a modelau mesur gwerth am arian yn y DG, a Gweriniaeth Iwerddon gan gynnwys ymchwil a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cymru.

- 1.4 Defnyddiodd cam 1 drefniant dulliau cymysg (ansoddol a meintiol) o adolygu darpariaeth mewn detholiad o fudiadau yn rhannau gwirfoddol a statudol y sector gwaith ieuenctid. Cynrychiolwyd pedair ardal awdurdod lleol ar draws Cymru yn y sampl ar gyfer cam 1 oedd cyn cynnwys: gwledig, trefol, a chyn ardaloedd diwydiannol. Ehangwyd cam 2 y sampl ymchwil i gynnwys pob un o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru.
- 1.5 Defnyddiwyd pedair ffynhonnell o gasglu data yng nghanam 1 yr ymchwil:
- data eilaidd o dair ffynhonnell, 'Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, Cyhoeddiad ystadegol – data archwilio blynyddol awdurdodau lleol' (<https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Youth-Service>), cyllido'r Grant Cefnogi Ieuenctid (YSG), a Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol Strategol
 - cyfweiliadau gyda Phrif Swyddogion Ieuenctid ac uwch reolwyr eraill
 - grwpiau ffocws gyda Phrif Swyddogion Ieuenctid
 - cafodd holiadur ei ddatblygu a'i brofi ymhlith y sectorau gwirfoddol a statudol.
- 1.6 Amlygwyd nifer o ganfyddiadau dangosol yng nghanam 1 yr astudiaeth oedd yn dangos y materion cymhleth a rhyng-gysylltiedig sydd ynghlwm wrth sut mae dulliau cyllido yn effeithio ar wasanaethau gwaith ieuenctid ar draws Cymru. Daeth yr ymchwil o hyd I dystiolaeth o sut mae'r cyllid ar gyfer gwaith ieuenctid yn cael ei ddefnyddio ar draws rhannau gwirfoddol a statudol y sector gwaith ieuenctid a sut mae hyn yn amrywio rhwng ac ar draws y ddwy ran (ceir rhestr lawn o'r canfyddiadau yn yr adroddiad: [Adolygiad o gyllido gwaith ieuenctid: adroddiad cychwynnol | GOV.WALES](#)). Awgrymwyd tri argymhelliad:
- Parhau â chamau 2 a 3 yr ymchwil gan fod digon o ddata ar gael i fynd i'r afael â nodau'r ymchwil

- parhau i gasglu rhagor o ddata gyda mudiadau ieuenctid sector gwirfoddol ac awdurdodau lleol ledled Cymru er mwyn gallu cadarnhau a thriogli'r dystiolaeth ddangosol a gasglwyd yn yr astudiaeth ddichonoldeb
- ar gyfer y tîm ymchwil, gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a grŵp llywio'r ymchwil i adnabod rhagor o ddulliau casglu data priodol a strategaeth samplio ar gyfer camau dilynol yr ymchwil.

1.7 Roedd Cam 1 wedi amlygu hefyd y mathau o dystiolaeth sydd eu hangen i gael dealltwriaeth o effeithiolrwydd economaidd gwaith ieuenctid, sydd wedi llywio'r astudiaeth hon (cam dau). Roedd yr Aseiad Cyflym o Dystiolaeth a gyflwynwyd yng nghanam 1 yr adroddiad, a'r ymgysylltiad gyda budd-ddeiliaid, wedi dangos yr angen i sicrhau bod yr ymagwedd yng nghanam dau wedi cael ei theilwra'n briodol i'r cyd-destun Cymreig.

Amcanion Cam 2

1.8 Amcanion cam 2 oedd:

- adolygu'r lefelau cyllido presennol i gael trosolwg o incwm a gwariant ac ystyriaeth o gynaliadwyedd ffynonellau cyllid
- cynnal adolygiad o'r prosesau cyllido gan gynnwys y rhwystrau wrth geisio dod o hyd i gyllid
- dadansoddiad o sut mae arian yn cael ei wario
- adolygiad o lywodraethiant mudiadau h.y, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ar gyllido a gwariant a sut mae pobl ifanc yn cyfrannu at y penderfyniadau.

Y Sector Gwaith Ieuenctid yng Nghymru

- 1.9 Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn system gymhleth a gydnabyddir trwy ddeddfwriaeth, adroddiadau llywodraeth arwyddocaol, a thrwy werthuso arfer hanesyddol a chyfoes. Gwaith ieuenctid yw'r broses sy'n digwydd o fewn y fframwaith a ddarperir gan y gwasanaeth ieuenctid ac mae'n defnyddio ystod eang o ddulliau. Ar ei lefel fwyaf sylfaenol mae gwaith ieuenctid yn seiliedig hefyd ar ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol ac ystyrlon rhwng gweithiwr ieuenctid a phobl ifanc, yn seiliedig ar gasgliad clir o egwyddorion a phwrpasau (Grŵp Adolygu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru 2022, [BOOKLET \(cwvys.org.uk\)](#)).
- 1.10 Mae'r safonau galwedigaethol cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid yn datgan mai prif bwrpas gwaith ieuenctid yw: galluogi pobl ifanc i ddatblygu'n holistaidd, trwy weithio gyda nhw i hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, i'w galluogi i ddatblygu eu llais, dylanwad, a lle mewn cymdeithas a chyflawni eu llawn potensial (NOS for Youth Work, CL&D Scotland, 2019, t.4).
- 1.11 Darperir y gwasanaethau ieuenctid statudol yng Nghymru gan y 22 awdurdod lleol. Mae pob awdurdod lleol yn penodi Prif Swyddog Ieuenctid i fod yn bennaeth strategol y gwasanaeth ieuenctid yn ardal eu hawdurdod lleol. Mae'r Prif Swyddogion Ieuenctid yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn yn un grŵp. Mae'r Prif Swyddogion Ieuenctid hefyd yn cyfarfod yn bedwar grŵp rhanbarthol (gogledd, de orllewin a chanolbarth, canol de, a de ddwyrain).
- 1.12 Mae gwaith gwirfoddol yn cael ei ddarparu hefyd gan fudiadau sector gwirfoddol ledled Cymru. Cynhyrchwyd ymchwil diweddar sy'n manylu ar 'gwmpas, cyfandoddiad, a natur y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol (VYWS) yng Nghymru' (Bacon, 2023, p. ii). CWVYS yw'r corff cynrychioliadol annibynnol ar gyfer y sector gwaith ieuenctid yng Nghymru. Dywed CWVYS 'yr amcangyfrifir fod y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru yn cynnwys mwy na 250,000 o bobl

ifanc ac o leiaf 30,000 o wirfoddolwyr mewn oed' (CWVYS, 2023).
Dywed CWVYS hefyd fod y 'sector ieuenctid gwirfoddol yn chwarae rôl hynod bwysig yn cefnogi datblygiad, llesiant, hunan-barch, sgiliau cyflogaeth a sgiliau bywyd pobl ifanc' (CWVYS, 2023).

- 1.13 Mae mudiadau sector gwirfoddol yng Nghymru (o bob sector, gan gynnwys gwaith ieuenctid) yn cael eu cefnogi hefyd gan 19 Cyngor Gwirfoddol Sirol Lleol a'r corff cefnogi cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth gyda gwirfoddoli, llywodraethu da, cyllido cynaliadwy, ymgysylltu, a dylanwadu. Gellir gweld o'r ffynonellau hyn fod y sector gwaith ieuenctid yn rhwydwaith cymhleth o fudiadau, a chanddo ystod eang o strwythurau a phwrpasau.
- 1.14 Mae'r gwaith ieuenctid a gyflawnir gan bob awdurdod lleol yn 'cael ei benderfynu a'i lywio'n drwm iawn gan anghenion pobl ifanc ymhob ardal a bydd yn arwain at amrywiol ddulliau darparu o awdurdod lleol i awdurdod lleol ac o ranbarth i ranbarth' (Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid, 2023).
- 1.15 Mae llawer o ddylanwadau ar y ffordd y mae rhannau gwahanol y gwasanaeth ieuenctid yn cyflawni eu gwaith gyda phobl ifanc ledled Cymru all effeithio ar gyflawni ei bwrpas. Er mwyn cael adolygiad trowch at yr adroddiad a gyflwynwyd yng [nghanam 1](#). Mae deall cymhlethdod gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru yn hanfodol i'r astudiaeth hon.

Asesiad Cyflym o Dystiolaeth (diweddariad)

- 1.16 Roedd adroddiad ymchwil cam 1 ([Adolygiad o gyllido gwaith ieuencid: adroddiad cychwynnol | GOV.WALES](#)) yn cynnwys Asesiad Cyflym o Dystiolaeth (REA) o gostau a manteision gwaith ieuencid a methodolegau cysylltiedig sydd ar gael ar draws gwledydd Prydain a thu hwnt. Cyhoeddwyd dwy astudiaeth ymchwil ers hynny sy'n edrych ar y sector gwaith ieuencid gwirfoddol yng Nghymru ac sy'n darparu tystiolaeth ychwanegol fydd yn cyfrannu at gam dau yr adolygiad cyllido hwn.
- 1.17 Roedd traethawd MRes diweddar (Bacon, 2023) yn ceisio archwilio cwmpas, cyfansoddiad, a natur y sector gwaith ieuencid gwirfoddol (VYWS) yng Nghymru. Mae'n ymddangos fodd bynnag fod strategaeth samplo Bacon yn cynnwys mudiadau nad oeddent yn endidau ariannol-annibynnol, sy'n ei gwneud yn strategaeth samplo wahanol i'r un a fabwysiadwyd gan yr adolygiad cyllido hwn. Amlygodd yr ymchwil faterion allweddol ynghylch cynaliadwyedd o fewn y VYWS yng Nghymru gan gynnwys cyllido ansefydlog, llymder, a dibynadwyedd gwirfoddolwyr. Dangosodd y canfyddiadau fod angen rhagor o ymchwil yn y meysydd canlynol sy'n cysylltu gyda'r adolygiad cyllido sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd:
- Ymchwil yn edrych ar werth economaidd gwaith ieuencid yng Nghymru
 - Ymchwil er mwyn cael dealltwriaeth o'r tirwedd cyllido a sut mae hyn wedi newid gydag amser oherwydd llymder a COVID-19.
- 1.18 Mae'r ddau argymhelliad yn amlygu'r angen i edrych ymhellach ar ddulliau a phroses cyllido a chost-buddiannau y VYWS yng Nghymru.
- 1.19 Mae deall effaith economaidd ac effaith gymdeithasol bosib gweithgarwch gwaith ieuencid yn cael ei ystyried yn rhan o adroddiad Urdd Gobaith Cymru 2023 ar eu hasesiad o'u gwerth economaidd; mae'n amlinellu gwerth economaidd yr Urdd yn genedlaethol yn ogystal â gwerth economaidd nifer o adrannau unigol y mudiad, gan gynnwys eu hadran ieuencid a chymunedol. Mae'n cyfeirio at

ymchwil gan Frontier Economics yn 2022 a'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn REA yr adroddiad cam 1 i Lywodraeth Cymru (2023). Mae astudiaeth Frontier Economics yn cyfeirio at ad-daliad amcangyfrifedig ar fuddsoddiad o rhwng £3.20 a £6.40 am bob £1 a fuddsoddiwyd mewn gwaith ieuenctid, ac yn seiliedig ar yr amcangyfrifon hynny mae'r adroddiad yn awgrymu y:

'Gwariodd adran ieuenctid a chymunedol yr Urdd £1.5m yn 2022-23. Os ydym, yn seiliedig ar y canfyddiadau uchod, yn defnyddio'r amcangyfrif mwyaf ceidwadol o ad-daliad ar fuddsoddiad o £3, byddai hyn yn awgrymu y gallai gwerth cymdeithasol gwariant adran ieuenctid a chymunedol yr Urdd fod yn £4.5m' (Ymchwil Arad, 2023, t.27).

1.20 Hefyd, cynhaliwyd arolwg o bobl ifanc fel rhan o'r ymchwil hwn, ac mae'r data'n awgrymu fod y rhan fwyaf o'r sampl oedd wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd yn ystod haf 2023 yn cytuno eu bod wedi symud ymlaen mewn sawl maes gan gynnwys: sgiliau cymdeithasol, agweddau at y Gymraeg, a sgiliau llesiant/emosiynol (Arad, 2023, t. 25).

1.21 Mae'n bwysig ystyried ymgysylltu Llywodraeth Cymru gyda gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cefnogi ieuenctid ym mis Rhagfyr 2023 ynghylch y ffordd y bwriedid mynd ati i gryfhau'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru yn bwysig yng nghyd-destun yr ymchwil hwn. Daeth dros 70 o bobl i'r sesiwn, gan roi enghreifftiau o arfer da a meysydd i'w hystyried ymhellach. Cafodd sawl neges allweddol ei hadnabod, ac mae dau faes sy'n berthnasol i'r astudiaeth hon yn cynnwys:

- Mae angen eglurder ar atebolrwydd i wneuthurwyr penderfyniadau er mwyn llywodraethu gwaith ieuenctid yn effeithiol ac er mwyn i weithwyr ieuenctid gefnogi pobl ifanc i gymryd rhan

- Mae pobl sy'n rhan o waith ieuenctid eisiau gwybod sut mae cyllid yn cael ei neilltuo mewn awdurdodau lleol a mudiadau ieuenctid gwirfoddol i sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu anghenion daearyddol a phoblogaethol.
- 1.22 Mae mapio'r sector gwirfoddol (Bacon, 2023) ac adroddiad yr Urdd (Arad, 2023) yn adnabod materion perthnasol o ran y VYWS yng Nghymru. Mae'r ffordd yr aeth y ddwy astudiaeth ati i gasglu a dadansoddi data ac i lunio casgliadau yn berthnasol i'r adolygiad cyllido a gyflwynir yn yr astudiaeth hon, trwy ddarparu tystiolaeth ychwanegol o bwysigrwydd deall effaith economaidd a chymdeithasol y VYWS yng Nghymru, ac felly hefyd ganfyddiadau Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â'r sector. Roedd yr astudiaethau ymchwil a drafodwyd wedi defnyddio trefniant dulliau cymysg, sef y drefn a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil a gyflwynir yn y ddogfen hon.
- 1.23 Hefyd, mae'r diweddariad ar [Ddatganiad Ysgrifenedig: Datblygu Argymhellion y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim: Camau nesaf \(13 Rhagfyr 2023\) | GOV.WALES](#) Llywodraeth Cymru ar eu hymgysylltu gyda gweithwyr cefnogi ieuenctid ym mis Rhagfyr 2023, yn cefnogi pwysigrwydd yr astudiaeth hon yn edrych ar brosesau cyllido a llywodraethu ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.


Cynnwys yr Adroddiad

- 1.24 Yn y lle cyntaf bydd yr adroddiad yn amlinellu'r fethodoleg a'r dulliau casglu data a ddefnyddiwyd i fynd i'r afael â nodau'r ymchwil. Yn ail, fe gyflwynir y prif ganfyddiadau sy'n ymdrin â'r meysydd canlynol: incwm, prosesau cyllido, gwariant, a llywodraethu. Yn drydydd, fe drafodir casgliadau ac yn olaf caiff yr ar argymhellion a awgrymir eu hamlinellu.

2. Methodoleg/Dulliau

2.1 Mabwysiadwyd trefniant dulliau cymysg. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth gadarn o'r data (Creswell a Creswell, 2018, t. 218). Mae'r trefniant hwn yn gydnaws â'r dulliau methodolegol a nodwyd yn ein Hasesiad Cyflym o Dystiolaeth. Yn benodol, rydym wedi mabwysiadu dyluniad cam un cydgyfeiriol. Mae Ffigur 2.1. yn rhoi darlun o'r dyluniad hwn.

Ffigur 2.1. Dulliau Cymysg: Dyluniad Cydgyfeiriol (Dyluniad Un Cam)



Addaswyd o Creswell a Creswell (2018)

2.2 Mae'r ymagwedd fethodolegol a ddangosir yn Ffigur 2.1 yn rhoi fframwaith inni ar gyfer casglu ystod cyfoethog o ddata. Mae wedi'n galluogi i werthuso, dadansoddi, ac archwilio'r data yn effeithiol er mwyn cyflawni nodau ymchwil yr astudiaeth hon.

2.3 Mabwysiadwyd dyluniad cydgyfeiriol ar gyfer yr astudiaeth hon gan ei fod yn cael ei ystyried yn arbennig o addas wrth astudio ffenomenau cymhleth neu pan mae angen sawl safbwynt er mwyn deall mater yn llawn (Creswell a Creswell, 2018). Mae hefyd yn manteisio ar

ymagwedd dulliau cymysg yn unol ag ymchwil blaenorol fel y nodwyd yn yr REA.

- 2.4 Ni chafodd yr ystod o ffynonellau cyllido a chyd-destunau gwahanol gwaith ieuencid yng Nghymru eu hymchwilio i'r graddau hyn o'r blaen, a byddai defnyddio dulliau meintiol neu ansoddol yn unigol wedi golygu na allem fod wedi cynhyrchu gwybodaeth mor eang, nac wedi cael y dyfnder dealltwriaeth angenrheidiol. Mae ein hymagwedd dulliau cymysg wedi'n galluogi i gasglu data i'n helpu i ddeall y sector trwy ddod â data meintiol ac ansoddol at ei gilydd, trwy gwestiynau penagored a chaêedig (Creswell a Creswell, 2018).
- 2.5 Yn ogystal â'r dulliau trylwyr hyn o gasglu data, dadansoddi data, a dehongli data meintiol ac ansoddol, rydym wedi dilyn model Creswell a Creswell (2018) trwy gyfuno'r ddau fath o ddata, esbonio data, a chysylltu un set ddata gydag un arall o fewn ein dyluniad cydgyfeiriol (gweler Ffigur 2.1).

Dulliau meintiol

- 2.6 Daeth data ar gyfer elfen feintiol yr ymchwil o ddwy ffynhonnell. Yn gyntaf, data oedd ar gael yn gyhoeddus ac yn ail, casglwyd data trwy ddefnyddio holiadur a gafodd ei fireinio a'i ddatblygu yn dilyn y deilliannau o gam 1.
- 2.7 Mae gwasanaeth ieuencid pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cyflwyno datganiad data archwilio blynyddol i Lywodraeth Cymru. Cafodd y data hwn sydd ar gael yn gyhoeddus ar gyfer 2010.11 i 2022.23 (blynyddoedd ariannol) ei ddarllen, ei lawr lwytho, a'i ddefnyddio yn y dadansoddiad fel y cofnodwyd yng nghanlyniadau'r adroddiad hwn (Llywodraeth Cymru, 2023, [Gwaith Ieuencid Ystadegau Cymru](#)). Defnyddiwyd pedair ardal ranbarthol y Prif Swyddogion Ieuencid yn sail ar gyfer y grwpiadau er mwyn dadansoddi'r setiau data.

- 2.8 Barnwyd fod data archwilio blynyddol yr awdurdodau lleol yn darparu digon o dystiolaeth at ddibenion yr astudiaeth, ond yn wahanol i'r data archwilio blynyddol nid oes dim byd tebyg i gasglu tystiolaeth ar gyfer y sector gwirfoddol, felly datblygwyd holiadur er mwyn gallu casglu'r dystiolaeth hon.
- 2.9 Lluniwyd y rhestr ddosbarthu ar gyfer yr holiadur yn y modd canlynol yn unol â'n strategaeth samplo. (h.y. roeddent yn bodloni meini prawf mudiad sector gwaith ieuenctid gwirfoddol):
- darparodd CWVYS restr o fudiadau sector gwirfoddol.
 - cawsom fanylion mudiadau sector gwirfoddol yn y gwahanol ardaloedd gan y Cynghorau Gwirfoddol Sirol.
 - cynhaliwyd chwiliad ar-lein am fudiadau gwirfoddol.
- 2.10 O'r herwydd, daethpwyd o hyd i 171 o fudiadau ledled Cymru oedd yn bodloni'r meini prawf. O'r 171 mudiad a gafodd eu hadnabod roedd 40 yn fudiadau sector gwirfoddol cenedlaethol ac roedd 131 yn fudiadau lleol.
- 2.11 Llanwodd cyfanswm o 37 o fudiadau yr holiadur; roedd naw ohonynt yn fudiadau cenedlaethol ac roedd 28 yn fudiadau lleol, sef cyfradd ymateb gyffredinol o 22 y cant. A considerable amount of support was provided and offered to voluntary youth work sector organisations to complete the survey. As is noted in the reports limitations (see 2.25) there appear to be valid reasons for non-completion.
- 2.12 Er mwyn archwilio'r data archwilio blynyddol a'r ymatebion i'r holiadur defnyddiwyd Microsoft Excel a meddalwedd dadansoddi STATA i adolygu'r setiau data. Gwnaed sawl addasiad i'r data yn ystod y dadansoddi. Defnyddiwyd y gwiriad samplo safonol ar gyfer ymatebion i'r holiadur.
- 2.13 Ar gyfer y data archwilio blynyddol lle yr adolygwyd yr holl awdurdodau lleol defnyddiwyd y gwiriad poblogaeth safonol gan fod cyfanswm poblogaeth awdurdodau lleol yn gyfystyr â phoblogaeth

Cymru gyfan. Defnyddir cydberthyniadau i adolygu'r berthynas rhwng staffio, incwm, gwariant a chyrhaeddiad yn y sector statudol a gwirfoddol. Addaswyd yr holl amrywynnau ariannol o fewn y cydberthyniad yn werthoedd real. Mae addasu newidynnau ariannol o enwol i real yn bwysig gan ei fod yn eithrio effeithiau chwyddiant wrth edrych ar dueddiadau, cyfrifo newidiadau canrannol ac mae'n caniatáu gwneud cymhariaeth deg rhwng data ar draws cyfnod hir o amser. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth ddadansoddi'r data archwilio blynyddol sy'n rhedeg o 2010 i 2023. Dewisir blwyddyn sail wrth newid newidynnau, a chaiff pob rhif ei addasu i adlewyrchu'r un flwyddyn sail, h.y. bydd newidynnau ariannol yn 2010 yn mynd yn fwy na'u maint enwol gan fod chwyddiant wedi cynyddu maint gwerthoedd 2023 dros y 13 mlynedd diwethaf. Yn syml iawn, mae hyn yn golygu y gellir cymharu tebyg â thebyg. Dewiswyd blwyddyn ariannol 2022.23 yn flwyddyn sail a defnyddiwyd mynegai CPI (Mynegai Prisiau Defnyddwyr) o'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (ONS) ar gyfer addasu'r gwerthoedd ar gyfer y sectorau statudol a gwirfoddol. Yr eithriad yw data arian wrth gefn na chafodd ei addasu.

Dulliau ansoddol

- 2.14 Er mwyn casglu data ansoddol gwahoddwyd mudiadau sector gwirfoddol i gymryd rhan mewn digwyddiadau grwpiau ffocws penffordd a gynhaliwyd ledled Cymru ac ar-lein (Tabl 2.1). Yn ystod y digwyddiadau hyn cymerodd pobl ran mewn grwpiau ffocws, a bydd yr holl ddata o grwpiau ffocws penffordd yn cael eu galw'n grwpiau ffocws trwy gydol y ddogfen; mae rhestr y cwestiynau i'w gweld yn Atodiad D.
- 2.15 Mae Tabl 2.1 yn dangos sut yr aethom ati i gasglu'r data ansoddol. Cynrychiolwyd 92 o fudiadau sector gwirfoddol yn ein grwpiau ffocws sioeau penffordd o fudiadau lleol a chenedlaethol. Cynhaliwyd grwpiau ffocws sioeau penffordd daearyddol yn 19 o'r 22 bwrdeistref sirol ar draws Cymru a chynhaliwyd pedwar digwyddiad grwpiau

ffocws ar-lein hefyd. Daeth cyfartaledd o chwe person i'n digwyddiadau. Daeth cyfanswm o 123 o unigolion i'n digwyddiadau grwpiau ffocws (gweler Tabl 2.1).

- 2.16 Cynhaliwyd pedwar grŵp ffocws ar gyfer personél awdurdodau lleol, ac fe'u mynychwyd gan 21 Prif Swyddog Ieuentid, yn ein grwpiau ffocws cenedlaethol neu leol. Nid oedd gan un awdurdod lleol Brif Swyddog Ieuentid yn ei swydd pan gynhaliwyd y gwaith maes. Yn ogystal â Phrif Swyddogion Ieuentid, mynychwyd dau grŵp ffocws gan uwch aelodau staff eraill. Mewn un grŵp ffocws cymerodd cyfarwyddydd cyllid ran hefyd. Cynaliasom un cyfweiliad gyda sefydliad cyllido. Yn ogystal â'n grwpiau ffocws ar gyfer awdurdodau lleol, danfonwyd holiadur byr at Brif Swyddogion Ieuentid i'w galluogi i gyfrannu'n ysgrifenedig. Danfonodd tri Phrif Swyddog Ieuentid ymateb ysgrifenedig; gallai hynny fod oherwydd iddynt gymryd rhan ynghynt yn yr astudiaeth fel y nodwyd.

Tabl 2.1 Pobl a Gymerodd Ran mewn Grwpiau Ffocws Sioeau Penffordd/Grwpiau Ffocws/Cyfweiliadau

| Math o Fudiad | Grwpiau Ffocws | Cyfweiliadau | Cyfanswm y Cyfranogwyr |
|--|----------------|--------------|---------------------------------------|
| Mudiadau sector gwaith ieuentid gwirfoddol (gan gynnwys mudiadau cenedlaethol a lleol) | 23 | | 123 (Yn cynrychioli 92 VSYO) |
| Cynrychiolwyr awdurdodau lleol (gan gynnwys Prif Swyddogion Ieuentid ac uwch reolwyr a swyddogion cyllid eraill) | 4 | | 29 (21 PYO; 8 Uwch aelod o staff ALI) |
| Sefydliadau cyllido | | 1 | |

- 2.17 Defnyddiwyd meddalwedd NVIVO i ddadansoddi'r data ansoddol a gasglwyd trwy ein grwpiau ffocws sioeau penffordd, a chyfweiliadau. Dadansoddwyd data ansoddol mewn ffordd thematig, fel rhan o broses iteriadol. Cafodd data ei fewnforio'n wreiddiol i NVIVO, ac yna bu'r tîm yn archwilio'r trawsysgrifiadau a recordadau, yn codio'r data,

yn myfyrio ar y data, ac yn tynnu allan ddata ansoddol perthnasol a chynrychioliadol i'w ddefnyddio yn yr adroddiad.

- 2.18 Cafodd y wybodaeth a gynhyrchwyd o'r ffynonellau meintiol ac ansoddol hyn ei dadansoddi ac fe'l cyflwynir o dan y pedwar nod ymchwil a gytunwyd, sef incwm, prosesau cyllido, gwarint, a llywodraethiant.

Moeseg/GDPR

- 2.19 Ymhob ffordd, cynlluniwyd yr ymchwil i gydymffurfio â phrotocolau ymchwil a amlinellir yn Siartr BERA ar gyfer Staff Ymchwil mewn Addysg (2012) a Chanllawiau Moesegol ar gyfer Ymchwil Addysgol (BERA, 2018). Mae'r holl ymchwil a wnaed gan y tîm ymchwil yn cydymffurfio â safonau moesegol cyfredol, gan gynnwys cydsyniad gwybodus, anhysbysrwydd, preifatrwydd, yr hawl i dynnu'n ôl, a pharch i'r unigolyn. Cafwyd cymeradwyaeth foesegol lawn ar gyfer yr ymchwil trwy Bwyllgorau Moesegol Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Wrecsam ac fe gedwir at bolisiâu GDPR.

Cyfyngiadau

Cyfyngiadau'r data archwilio

- 2.20 Mae'r data archwilio blynyddol yn holiadur hydredol cynhwysfawr (arsylwadau a ail-adroddir dros amser) o'r sector statudol. Mae'r holiadur yn casglu sbectrwm eang o ddata ar newidynnau staffio, incwm, gwariant, a chyrhaeddiad (y diffiniad o gyrhaeddiad yw nifer y bobl ifanc sydd wedi manteisio ar waith ieuenctid). Fodd bynnag, gallai fod rhagor o welliannau yn y gronfa ddata fyddai'n cynorthwyo prosiectau ymchwil i'r dyfodol.
- 2.21 Roedd gan Ynys Môn ddata ar goll yn gyson ar draws incwm, gwariant, a gwybodaeth am brosiectau a drefnwyd a gweithlu.
- 2.22 Rydym wedi adolygu'r categori newidynnau 'eraill' sy'n dangos y rhestrir symiau sylweddol o incwm a gwariant gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nid yw'n bosib adnabod sut mae hwn yn cael ei wahanu

yn ôl mathau cost penodol. Roedd hyn yn golygu felly nad oedd modd adnabod yr holl ffynonellau incwm a chostau.

Cyfyngiadau ymatebion o'r sector i'r holiadur

- 2.23 Er bod y data uchod ar gael yn gyhoeddus ar gyfer y sector statudol, nid oes set data o'r fath ar gael ar gyfer gwaith ieuencid sy'n digwydd yn y sector gwirfoddol, ac mae hyn yn creu rhwystr arwyddocaol wrth gael dealltwriaeth o waith ieuencid yng Nghymru yn gyffredinol. Pwrpas yr holiadur ar gyfer y sector gwirfoddol oedd cael gafeal ar beth o'r data cyfatebol oddi wrth fudiadau sector gwirfoddol.
- 2.24 Fodd bynnag, er bod 11 mlynedd o ddata ar gael ar gyfer y gwasanaeth statudol, ni fyddai'n rhesymol gofyn i fudiadau sector gwirfoddol ddarparu cymaint â hynny o ddata i gyd ar yr un pryd. Felly, gofynnwyd am dair blynedd o ddata ar incwm, gwariant, arian wrth gefn, a chyrhaeddiad. Roedd hyn yn dal yn holiadur oedd yn galw ar ymatebwyr sector gwirfoddol i fuddsoddi cryn dipyn o amser er mwyn ei gwblhau. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r mudiadau hynny am eu cyfraniad i'r ymchwil hwn.
- 2.25 Cafwyd cyfradd ymateb o 22 y cant ar gyfer holiadur y sector gwaith ieuencid gwirfoddol. Roedd hyn yn cynnwys mudiadau yn gweithredu ymhob un o'r 22 ardal Awdurdod Lleol, a dywedodd nifer o fudiadau gwirfoddol wrth y tîm ymchwil nad oedd ganddynt y capasiti angenrheidiol i lenwi'r holiadur, er gwaetha'r cymorth a gynigiwyd gan y tîm ymchwil.
- 2.26 Cynlluniwyd holiadur y sector gwirfoddol i adlewyrchu fersiwn gryno o'r set data archwilio blynedd a gesglir gan Ystadegau Cymru ar gyfer y sector statudol, gyda rhai eithriadau ac ychwanegiadau. Yn benodol felly: cynnwys ffigyrau arian wrth gefn ar gyfer mudiadau'r sector gwirfoddol; cynnwys categorïau incwm ychwanegol sy'n ymwneud yn benodol â'r sector gwirfoddol megis incwm a gynhyrchwyd; cynnwys cwestiynau am y broses gyllido er mwyn cyflawni ein nodau ymchwil.

Cyfyngiadau data ansoddol

- 2.27 Mae cyfyngiadau agweddau ansoddol yr astudiaeth yn ymwneud â goddrychedd yr ymchwil a'r ymchwilwyr, o ran eu hymagwedd at yr ymchwil a sut mae data'n cael ei ddehongli. Un o'r strategaethau a fabwysiadwyd gennym i reoli'r cyfyngiadau oedd defnyddio ymchwilwyr gwahanol i gynnal grwpiau ffocws a chyfweiliadau a meddalwedd NVIVO i helpu gyda chodio data. Ynghyd â'n defnydd o ddulliau cymysg, golyga hyn y cafodd y posibilrwydd fod credoau personol yn dylanwadu ar y canfyddiadau wedi cael ei leihau.
- 2.28 Gwahoddwyd pob un o'r 22 awdurdod lleol i gymryd rhan yn y prosiect. Dangosodd y canfyddiadau o gam 1 yr astudiaeth fod rhaid inni, er mwyn cael y dystiolaeth angenrheidiol, gyfweld uwch arweinwyr mewn awdurdodau lleol ac aelodau etholedig lleol a chanddynt gyfrifoldeb am y gwasanaeth ieuencid. O'r herwydd cafodd yr uwch arweinwyr hyn eu cynnwys yn ein sampl. Roedd lefelau ymgysylltu yn amrywio, ac roedd rhai awdurdodau'n fwy ymatebol nac eraill. Llwyddasom, er hynny, i gyfweld sampl o uwch reolwyr awdurdodau lleol (Tabl 2.1).
- 2.29 Roeddem wedi bwriadu cyfweld aelodau etholedig lleol fel rhan o'n gwaith casglu data, a chysylltwyd â swyddfeydd prif weithredwyr yr holl awdurdodau lleol, ond ni chytunodd neb i gymryd rhan yn yr astudiaeth.
- 2.30 Yn ogystal â chysylltu ag awdurdodau lleol, cysylltwyd â mudiadau sector gwirfoddol i roi cyhoeddusrwydd i'n grwpiau ffocws sioeau penffordd sector gwirfoddol. Cafodd y rhain gyhoeddusrwydd trwy gyfres o e-daflenni a ddosbarthwyd yn eang.
- 2.31 Gwnaed cais i gael trafodaethau pellach gyda Phrif Swyddogion. O'r herwydd trefnwyd rhagor o grwpiau ffocws ar-lein ar gyfer Prif Swyddogion Ieuencid oedd yn dymuno cyfrannu at yr ymchwil. Yn ogystal â'r cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws gyda Phrif Swyddogion

leuenctid, cawsant gyfle hefyd i gyflwyno ymatebion ysgrifenedig. Cyflwynodd tri Phrif Swyddog leuenctid ymatebion ysgrifenedig.

Cyfyngiadau meintiol ac ansoddol

- 2.32 Roedd dau faes tystiolaeth na chawsant eu casglu'n llawn ar gyfer data meintiol nac ansoddol, sef ffynonellau incwm o ran cyllid Taith a chyfraniadau "mewn da" e.e gan wirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr. Derbynnir er hynny y gellir archwilio'r meysydd hyn ymhellach yng Ngham 3.
- 2.33 Yn gyffredinol, roedd cyfyngiadau i'r ymchwil, ond casglodd y tîm gyfansymiau digynsail o ddata gan grwpiau amrywiol, unigolion ac o gyd-destunau gwahanol ar draws Cymru, o ardaloedd trefol, gwledig a chyn ddiwydiannol. Rhoddodd hyn ddata gwerthfawr a gyfrannodd at nodau'r ymchwil.

3. Canfyddiadau

3.1 Rhennir y canfyddiadau'n bedair adran. Incwm, prosesau cyllido, gwariant, a llywodraethiant.

Incwm

3.2 Amlinellir y canfyddiadau canlynol ar gyfer incwm:


- Trosolwg o incwm, gan gynnwys ffrydiau incwm o bob rhan o'r sector
- caiff ffynonellau incwm eu hystyried a'r gyfran y mae pob ffynhonnell yn ei darparu
- caiff effaith bosib lefelau cyllido ar gynaliadwyedd mudiadau gwaith ieuenctid ei hadolygu
- caiff effaith cyllido ar gyrhaeddiad gwaith ieuenctid ei hasesu.

Trosolwg o Incwm

3.3 Cafodd lefel gyllido gyffredinol y 37 mudiad sector gwirfoddol ei hasesu trwy eu hymatebion i'r holiadur. Darparodd tri deg tri ohonynt wybodaeth am incwm. Yn gyffredinol roedd gan 33 mudiad incwm cyfunol o £8,639,960 yn 2020.21 (mae'r rhain yn ffigyrau real a addaswyd ar gyfer chwyddiant), £8,655,453 yn 2021.22 a £8,037,802 yn 2022.23. Er y bydd incwm rhai ymatebwyr wedi codi, mae incwm eraill wedi gostwng yn gyffredinol, ac mae ymatebion yn dangos gostyngiad incwm o 7 y cant dros y tair blynedd diwethaf yn seiliedig ar yr incwm cyfunok ar gyfer pob blwyddyn.

3.4 Mae hyn yn cymharu â chynnydd o dri y cant yng nghyfanswm incwm yn y sector statudol dros yr un cyfnod. Mae data mwy hirdymor, sydd ar gael ar gyfer y sector statudol, yn dangos, er gwaetha'r cynnydd diweddar, fod cyfanswm incwm yn y sector statudol wedi lleihau 26 y cant er 2010.11.

Ffigur 3.1 Cyfanswm Incwm Sector Gwaith Ieuentid Statudol 2010-2023



Defnyddir gwerthoedd cyfanswm incwm real ac fe'u haddaswyd yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ar gyfer 2023.

3.5 Yn seiliedig ar lefelau incwm yn y sector gwaith ieuentid statudol a gwirfoddol, ar gyfer blwyddyn ariannol 2022.23, yr amcangyfrif o gyfanswm lefel y cyllid incwm a dderbyniwyd ar gyfer gwaith ieuentid yng Nghymru yw £84,635,941. Cyfanswm yr incwm yw cyfanswm incwm y sector statudol a chyfanswm incwm y sector gwirfoddol. Er mwyn cyfrifo cyfanswm incwm y sector statudol defnyddiwyd y data a ddarparwyd yn y data archwilio blynyddol. Ar gyfer cyfanswm incwm y sector gwirfoddol, cyfrifwyd incwm cyfunol y sectorau gwirfoddol cenedlaethol a lleol yn seiliedig ar yr ymatebion i'r arolwg. Gan ddefnyddio'r 171 mudiad sector gwirfoddol roeddem yn rhagdybio fod ein hymatebwyr yn cynrychioli dosbarthiad incwm arferol, h.y. ein bod wedi derbyn manylion cyfran o'r mudiadau sector gwirfoddol cenedlaethol a lleol sy'n gynrychioliadol o gyfanswm poblogaeth y sector gwirfoddol. Yn naturiol, mae eithriadau i'r patrwm arferol yn

gallu ystrywio hyn, ond credwn fod y dosbarthiad yn weddol gynrychioliadol. O gofio hynny, rydym yn graddio incwm yr ymatebwyr i'r arolwg yn ôl cyfanswm y mudiadau y credwn sy'n bod yng Nghymru. Er enghraifft, lluosogir incwm cymedrig y sector gwirfoddol gyda 171. O gymharu, amcangyfrifir mai cyfanswm yr incwm wedi'i addasu yn ôl y CPI ar gyfer Cymru (sector gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol) yn 2010.11 yw £114,775,130, (addaswyd y ffigyrau yn ôl y CPI i werthoedd 2022.23).

Ffynonellau Incwm

- 3.6 Rhestrir ffynonellau incwm ar gyfer pob sector yn Nhablau 3.1 a 3.2 sy'n dangos fod cyfran yr incwm o ffynonellau gwahanol hefyd wedi newid gydag amser. Yn ein sampl o fudiadau'r sector gwaith gwirfoddol, mae incwm o sefydliadau ac ymddiriedolaethau elusennol wedi lleihau 42 y cant (ffigyrau real, wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant), dros y tair blynedd diwethaf. Erbyn hyn mae'r ffrwd incwm yn cynrychioli 15 y cant o gyfanswm incwm ein hymatebwyr o'r sector gwirfoddol, i lawr o 25 y cant yn 2020.21.
- 3.7 Ar draws ein sampl, roedd 57 o sefydliadau ac ymddiriedolaethau elusennol gwahanol yn darparu incwm i fudiadau gwaith ieuenctid sector gwirfoddol dros dair blynedd. Yn 2022.23 roedd 29 o sefydliadau ac ymddiriedolaethau elusennol gwahanol yn darparu cyllid yn ein sampl. Y mwyaf arwyddocaol o'r rhain, o ran gwerth ariannol, oedd Plant mewn Angen a gefnogodd wyth mudiad gwahanol yn ein sampl gyda chyfanswm o £203,869 yn 2022.23.
- 3.8 Yn y grwpiau ffocws sioeau penffordd clywsom yn aml am fudiadau gwaith ieuenctid gwirfoddol unigol yr oedd ganddynt dros 35 o ffynonellau incwm ar yr un pryd. Y nifer uchaf o ffrydiau incwm y daethpwyd ar ei draws mewn un mudiad yw 75 (cyfeiriwyd at hyn mewn grŵp ffocws sector gwirfoddol, ni lanwodd y mudiad ein holiadur). Mae'r ffaith ei bod yn ymddangos fod yr ystod sylweddol

hon o ffynonellau cyllid yn gyffredin yn cyfrannu at gymhlethdod cyllido yn y gwasanaeth ieuencid.

- 3.9 Mae mudiadau sector gwirfoddol hefyd yn gallu cynhyrchu eu huncwm eu hunain trwy roddion, codi arian, a chymynroddion. Yn Nhabl 3.1 mae “Incwm a Gynhyrchwyd” hefyd yn cynnwys incwm a enillwyd trwy ddarparu gwasanaeth, megis llogi ystafelloedd er enghraifft. O’r 33 mudiad sector gwirfoddol a ymatebodd i gwestiynau am incwm, soniodd 19 am ryw gymaint o incwm yr oeddent wedi’i gynhyrchu eu hunain. Mae incwm a gynhyrchwyd wedi lleihau 14 y cant dros y tair blynedd diwethaf (wedi’i addasu ar gyfer chwyddiant). Erbyn hyn mae’n cynrychioli 16 y cant o gyfanswm incwm y sector gwirfoddol yn ein sampl, i lawr o 18 y cant yn 2020.21. Cododd incwm a gynhyrchwyd yn sylweddol yn 2021.22, ond roedd hyn yn bennaf oherwydd bod un mudiad cenedlaethol mwy wedi adrodd am gynnydd mawr ac anghynaliadwy yn y flwyddyn honno ac nid yw felly’n cynrychioli tueddiad.
- 3.10 Mae incwm o gynghorau tref a chymuned wedi cynyddu ddeg gwaith drosodd dros y tair blynedd diwethaf, er ei fod yn parhau’n gyfran bach iawn o incwm ar gyfer y mudiadau hynny yn ein sampl ar 0.2 y cant.

Tabl 3.1 Ffynonellau Incwm Sector Gwirfoddol fel Canran o'r Cyfanswm Incwm

| | Canran cyfanswm incwm yn 2020.21 (%) | Canran cyfanswm incwm yn 2021.22 (%) | Canran cyfanswm incwm yn 2022.23 (%) |
|--|--------------------------------------|--------------------------------------|--------------------------------------|
| Ffynhonnell Incwm | | | |
| Sefydliadau ac Ymddiriedolaethau Elusennol | 24.85 | 12.65 | 15.38 |
| Llywodraeth Cymru | 17.98 | 16.54 | 16.70 |
| Incwm a Gynhyrchwyd e.e. trwy godi arian | 17.88 | 24.71 | 16.43 |
| Awdurdod Lleol | 16.88 | 19.41 | 19.05 |
| Arall | 10.47 | 10.58 | 13.23 |
| Y Loteri Genedlaethol | 8.40 | 10.40 | 9.42 |
| WCVA | 1.92 | 0.42 | 0.64 |
| Llywodraeth y DG | 0.80 | 2.56 | 6.63 |
| Heddlu a Diogelwch Cymunedol | 0.63 | 0.89 | 0.99 |
| Arian Ewropeaidd | 0.13 | 1.65 | 0.84 |
| Cynghorau Tref a Chymuned | 0.02 | 0.08 | 0.19 |
| Awdurdod Iechyd | 0.00 | 0.00 | 0.50 |

3.11 Yn rhan statudol y sector mae'r ffynonellau incwm wedi aros yn fwy sefydlog dros y tair blynedd diwethaf nac yn y sector gwirfoddol. Fodd bynnag, mae cyllideb graidd y gwasanaeth ieuencid (sy'n cael ei dyrannu ar lefel awdurdod lefel trwy'r Grant Cynnal Refeniw) yn cynrychioli cyfran sy'n lleihau o gyfanswm yr incwm, tra bod incwm o feysydd awdurdodau eraill, o Lywodraeth Cymru, ac o iechyd yn cynrychioli cyfran sy'n cynyddu o gyfanswm yr incwm. O'r herwydd, mae'n ymddangos fod y newid hwn mewn ffrydiau incwm yn golygu symud oddi wrth weithgareddau craidd i gynnig sydd wedi'i dargedu fwy, fel y nododd Prif Swyddog Ieuencid:

‘Nid yw cyllid craidd yn agos at yr hyn sydd ei hangen i ddarparu cynnig cyffredinol’ (Prif Swyddog Ieuenctid).

- 3.12 Un ffynhonnell incwm nad oedd yn amlwg iawn wrth inni gasglu data oedd yr un sydd ar gael o raglen Taith Llywodraeth Cymru (gweler cyfyngiadau). Yn 2022-2023 roedd cyllid Llywodraeth Cymru (gweler tabl 3.1 Llywodraeth Cymru) yn cynnwys £151,509 a roddwyd i un o’n hymatebwyr, ac fe’i nodwyd yn arian Taith. Fodd bynnag, nid yw hyn ond yn cynrychioli sampl bychan o mudiadau sector gwaith ieuenctid gwirfoddol. Hefyd, cyfeiriodd sampl bychan o’r mudiadau sector gwaith ieuenctid gwirfoddol at gyllid Erasmus + ar gyfer 2021-2022 ac fe’i nodir yn nhabl 3.1 yn arian Ewropeaidd.
- 3.13 Cydnabyddir y bu gan rai mudiadau gwaith ieuenctid gyfleoedd yn y gorffennol i gynnig am arian trwy raglen Erasmus +. Gan nad yw’r DG yn cymryd rhan yn y rhaglen hon mwyach, lansiodd Cymru raglen newydd yn 2022 o’r enw ‘Taith’ sy’n gallu darparu cyllid ar gyfer teithio i Gymru ac allan ohoni a gwaith partneriaeth (<https://www.taith.wales/about/>). Mae’r cyllid sydd ar gael ar gyfer Llwybr 1 yn 2024 I fyny at £650,000 (https://www.taith.wales/sector_youth/funding-opportunities/). Mae adran cyfyngiadau’r adroddiad hwn yn trafod y mater hwn ymhellach.

Effaith Iefelau Cyllido

- 3.14 Mae grwpiau ffocws gyda Phrif Swyddogion Ieuenctid ac yn yr adborth o grwpiau ffocws sioeau penffordd y sector gwirfoddol yn dangos fod ffrydiau incwm gwahanol yn effeithio ar natur y gwaith a wneir. Dywedodd un Prif Swyddog Ieuenctid fod eu gwasanaeth yn:
- ‘Ddibynnol iawn ar gyllid allanol – ac mae’n lleihau neu mae ganddo ofynion all fynd â chi oddi wrth yr hyn sydd ei angen. Ychydig iawn o arian sydd ar gael i ddarparu’r hyn y dangoswyd fod ei angen, yn enwedig yn gyffredinol neu heb dargedau pendant – mae’n rhaid ichi gynnig am arian gyda syniad/cynllun – yn

hytrach na'i fod yn esblygu'n organig ac yn cael ei arwain gan bobl ifanc' (Prif Swyddog Ieuencid).

- 3.15 Dywedodd un Prif Swyddog Ieuencid y gellid cydlynu'r ffrydiau cyllid gwahanol hyn gan Lywodraeth Cymru yn fwy effeithiol, ac yn enwedig felly:


'Nid yw cyllid ar gyfer Gwaith Ieuencid gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gyfuno – daw'r Grant Cefnogi Ieuencid o'r Gangen Gwaith Ieuencid – ond mae sawl llynydd yn Llywodraeth Cymru sy'n cyllido cefnogaeth/darpariaeth/gweithgarwch i bobl ifanc – pwy sy'n cael trosolwg o hyn, a yw'n cael ei resymoli? A oes digon o arian yn cael ei ddarparu ar gyfer gwaith ieuencid gan Awdurdodau Lleol Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar ffigyrau poblogaeth ieuencid a'r cynnig cyffredinol – dydw i ddim yn meddwl hynny' (Prif Swyddog Ieuencid).

Tabl 3.2 Cyfran yr Incwm o Bob Ffynhonnell 2020.21 - 2022.23 - Sector Gwaith Ieuenctid Statudol

| | Canran cyfanswm incwm yn 2020.21 | Canran cyfanswm incwm yn 2021.22 | Canran cyfanswm incwm yn 2022.23 |
|-------------------------------|-------------------------------------|-------------------------------------|-------------------------------------|
| Ffynhonnell Incwm | (%) | (%) | (%) |
| Gwasanaeth Ieuenctid Craidd | 40.62 | 39.04 | 38.39 |
| Grant Cefnogi Ieuenctid | 22.63 | 27.57 | 22.46 |
| Teuluoedd yn Gyntaf | 9.39 | 9.94 | 10.93 |
| Arian Ewropeaidd | 13.19 | 10.29 | 8.90 |
| Llywodraeth Cymru Arall | 6.92 | 6.85 | 8.40 |
| Arall (Heb fod yn ALI) | 3.58 | 2.16 | 3.53 |
| ALI Arall | 0.51 | 0.73 | 2.44 |
| Addysg ALI | 1.03 | 0.70 | 1.35 |
| Awdurdod Iechyd | 0.22 | 0.22 | 0.69 |
| Tai ALI | 0.08 | 0.07 | 0.54 |
| Camddefnyddio Sylweddau | 0.47 | 0.51 | 0.51 |
| Heddlu | 0.02 | 0.04 | 0.44 |
| Cymunedau'n Gyntaf | 0.65 | 0.87 | 0.44 |
| Diogelwch Cymunedol | 0.25 | 0.26 | 0.31 |
| Cyngor Tref/Cymuned | 0.10 | 0.29 | 0.23 |
| Tîm Troseddau Ieuenctid | 0.20 | 0.19 | 0.18 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol ALI | 0.02 | 0.04 | 0.14 |
| Pathways | 0.12 | 0.11 | 0.10 |
| Y Loteri Genedlaethol | 0.00 | 0.12 | 0.00 |

3.16 Mae Ffigur 3.2 yn dangos ar ffurf graff lefelau cymorth grant i fudiadau gwaith ieuenctid gwirfoddol gan awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys cymorth grant i'r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol o gyllideb ehangach awdurdodau lleol a darparu gwasanaethau mewn da, e.e. gwasanaethau cyflogres neu ddefnyddio adeiladau. Ers dyrannu'r Grant Cefnogi Ieuenctid (YSG) yn 2016 mae cyllid i'r sector gwirfoddol o'r gyllideb graidd ar gyfer gwaith ieuenctid wedi gostwng 19%. Fodd bynnag, mae Ffigur 3.2 yn dangos fod data archwilio blynyddol yn dangos ffynonellau eraill ar gyfer grantiau i waith ieuenctid a ddarparwyd gan awdurdodau lleol i fudiadau gwaith ieuenctid gwirfoddol. Yn gyffredinol, mae'r cyllid hwn i bartneriaid gan Awdurdodau Lleol wedi mwy na dyblu er 2016. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwnnw mae'r dyraniad o'r YSG y mae awdurdodau lleol yn ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru wedi cynyddu bron deirgwaith drosodd.

Ffigur 3.2 Tueddiadau yn y Cymorth Grant i Fudiadau Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol



Effaith lefelau cyllido ar gynaliadwyedd gwaith ieuenctid

3.17 Fe nodwyd mewn cyfweiliadau gyda Phrif Swyddogion Ieuenctid, wrth i'w cyllidebau leihau, ei bod yn mynd yn fwyfwy anodd i rannu cyllid gyda'r sector gwirfoddol oherwydd bod y rhan fwyaf o'u cyllidebau'n cael eu neilltuo ar gyfer costau staffio parhaus o fewn eu gwasanaeth eu hunain. Mae hyn yn awgrymu fod faint o arian refeniw sydd o fewn rheolaeth y Prif Swyddog Ieuenctid yn lleihau. Adleisiwyd y farn honno gan un ymatebydd mewn grŵp ffocws sioe penffordd, a ddywedodd:

'Efallai y bydd rhai yn rhoi ond mae'n gymhleth, yn y ddwy flynedd ddiwethaf mae gennym yr £20,000 ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg. Ond mewn rhai awdurdodau lleol nid ydym ond yn gallu cynnig am £3000, rhai i fyny at £3000. Ond dydw i ddim yn credu fod un awdurdod lleol yn rhoi digon o arian inni gyflogi aelod llawn amser o staff' (Cynrychiolydd mudiad sector gwirfoddol cenedlaethol).

3.18 Mae gwahaniaeth yn nigonolrwydd tybiedig cyllido'r sector gwirfoddol rhwng mudiadau gwirfoddol lleol a chenedlaethol. Mae'r ymatebion i'r holiadur yn dangos fod tua hanner y mudiadau gwirfoddol cenedlaethol yn cytuno fod eu cyllido'n ddigonol i gyflawni eu hanghenion sefydliadol o gymharu â thraean o fudiadau gwirfoddol lleol. Mae'r rhagolygon cyllidol i fudiadau gwirfoddol lleol a chenedlaethol yn debyg iawn. Yn seiliedig ar orwel blwyddyn, tair a phum mlynedd, gofynnwyd i fudiadau gwirfoddol raddio eu hyder o ran gallu sicrhau cyllid digonol i gynnal y lefelau gwasanaeth presennol. Ar gyfartaledd, roedd mudiadau cenedlaethol yn fwy hyderus ar draws yr holl orwelion amser o gymharu â mudiadau gwirfoddol lleol, sy'n awgrymu fod sefyllfa gyllidol mudiadau cenedlaethol yn fwy sefydlog. Fodd bynnag, mae mudiadau gwirfoddol lleol a chenedlaethol 'ychydig yn hyderus' am eu sefyllfa gyllidol mewn tair blynedd, ac nid yw'r rhan fwyaf yn hyderus o gwbl am y sefyllfa gyllidol mewn deng mlynedd. Mae hyn yn dangos yr

angen am fodolau cyllido hirach fydd yn helpu mudiadau sector gwirfoddol i gynllunio ac adeiladu hyder. Trafodir y mater hwn yn fanylach yn yr adran ar brosesau cyllido.

- 3.19 Lleisiwyd barn gyson ar draws ein grwpiau ffocws sioeau penffordd sector gwirfoddol ac mewn cyfweiliadau gyda Phrif Swyddogion Ieuenctid a swyddogion llywodraeth leol eraill fod lefelau cyllido presennol yn annigonol ar gyfer y gofynion sy'n wynebu mudiadau yn y sector gwirfoddol. Mae'r gofynion yn cynnwys cynnal craidd gweithredol, talu ceisiadau cyflog, ymdopi â chostau cynyddol gwresogi a goleuadau ymhlith eraill. Roedd chwe deg pump y cant o ymatebwyr sector gwirfoddol *enedlaethol* i'n holiadur yn ystyried y cyllid yn annigonol. Roedd chwe deg chwech y cant o fudiadau sector gwirfoddol *lleol* yn ystyried y cyllid yn annigonol.
- 3.20 Mae tystiolaeth o ganlyniadau'r holiadur yn dangos mai'r cyllid cyfartalog a roddwyd i bob cais yw £13,388, ond mae pob cais yn cymryd cyfartaledd o awr i'w gwblhau. Mae hyn yn awgrymu y byddai pob awr a dreulir yn paratoi ceisiadau, os yn llwyddiannus, yn cynhyrchu cyfanswm incwm yr awr o £750 o ymdrech. Mae hyn yn seiliedig ar y grantiau yn llwyddo, ni fydd mudiadau sector gwirfoddol llai yn derbyn y lefel hon o gyllid ar gyfer pob cais na'r cyfanswm incwm yr awr, ond mae'n dangos fod treulio amser ar geisiadau am gyllid yn werrhfawr o fewn y sector gwirfoddol.

Effaith cyllido ar gyrhaeddiad gwaith ieuenctid

- 3.21 Mae cydberthyniadau'n dangos y berthynas rhwng newidynnau niferus (er enghraifft, cyrhaeddiad a nifer y staff) ac yn dangos cryfder eu perthynas. Cynhaliwyd dadansoddiad cydberthyniad er mwyn edrych ar y berthynas rhwng cyfanswm incwm, cyfanswm staff cyfwerth ag amser llawn, nifer y rheolwyr, nifer y staff rheng flaen, nifer y staff gweinyddol ac eraill, cyfanswm gwariant a chyrhaeddiad yn y sectorau statudol a gwirfoddol ym mlwyddyn ariannol 2022.23.

- 3.22 Mae'r canfyddiadau'n awgrymu, ymhlith ymatebwyr sector gwirfoddol, fod cysylltiad cadarnhaol cryf gyda chyfanswm staff cyfwerth ag amser llawn, fel y gellid disgwyl, a chysylltiad cymedrol gyda nifer y rheolwyr, cyrhaeddiad, a nifer y staff gweinyddol. Mae cysylltiad gwan rhwng gwariant a'r holl newidynnau, gan gynnwys cyrhaeddiad, a gallai hynny fod oherwydd effaith gwirfoddolwyr, gan gynnwys ymddiriedolwyr.
- 3.23 Dangosodd y dadansoddiad cydberthyniad yn seiliedig ar ddata'r sector statudol fod cydberthyniad agos iawn, unwaith eto, rhwng cyfanswm incwm a chyfanswm staff cyfwerth ag amser llawn. Mae hyn yn dangos mai costau staffio yw'r gyriannau incwm a gwariant mwyaf yn y sector statudol, a thrafodir hyn eto yn yr adran ar wariant. Mae'r cyfernod positif iawn a welwyd rhwng cyfanswm incwm a chyfanswm gwariant yn dangos fod y rhan fwyaf o incwm yn cael ei wario ymhob blwyddyn ariannol, fel y gellid disgwyl yn y sector statudol, gan na ellir cario cyllidebau ymlaen i flwyddyn ariannol newydd. Ni welwn gydberthyniad cryf rhwng cyfanswm incwm a rheolwyr. Ceir cydberthyniad cymedrol rhwng cyfanswm incwm a gwariant a chyrhaeddiad yn y sector statudol. Mae'n ddiddorol nodi fod cydberthyniad isel iawn rhwng nifer unrhyw fath o staff (gweinyddol, rheolwyr, neu rheng flaen) a chyrhaeddiad (h.y. nifer y bobl ifanc a gyrhaeddwyd gan y gwasanaeth).

Prosesau cyllido


- 3.24 Mae'r adran hon yn edrych ar brosesau cyllido, ac yn benodol felly sut mae mudiadau gwaith ieuenctid yn adnabod ac yn cael gafael ar gyllid:
- edrychwn ar y rhwystrau rhag gallu cael gafael ar gyllid
 - edrychwn ar y cyfnodau amser y darperir cyllid oddi fewn iddynt
 - edrychwn ar gydweithio yn y sector a sut gwneir hynny er mwyn cael gafael ar gyllid

Rhwystrau rhag cael gafael ar gyllid

3.25 Mae'r mudiadau gwaith ieuenctid gwirfoddol a gymerodd ran yn yr ymchwil hwn yn ymwybodol o, ac yn gallu manteisio ar, sawl ffynhonnell o incwm fel y nodwyd gan yr ymatebwyr i'n holiadur a ddangosir yn Ffigur 3.3.

Ffigur 3.3 Ffynonellau Gwybodaeth Gyllido a Ddefnyddiwyd gan Ymatebwyr Sector Gwirfoddol


(n= 37. Gall pob mudiad ddefnyddio mwy nac un ffynhonnell o wybodaeth)



3.26 Mae Ffigur 3.4 yn darlunio'r prif rwystrau rhag gallu cael gafael ar gyllid o fewn ein sampl yn y sector gwirfoddol. Dywedwyd mai'r tri rhwystr mwyaf cyffredin oedd diffyg cyfleoedd i fanteisio ar gyllid craidd, diffyg capasiti staff, a natur fyrdymor llawer o grantiau. Trafodir pob un o'r rhwystrau hyn yn fanylach.

Ffigur 3.4 Rhwystrau Rhag Gallu Dod o Hyd i Gyllid i Ymatebwyr Sector Gwirfoddol

(N= 37, Sylwer y gall mudiadau wynebu mwy nac un rhwystr)



3.27 Y rhwystr mwyaf arwyddocaol y cyfeiriwyd ato oedd diffyg buddsoddiad ‘craidd’. Mae ansefydlogrwydd cyfleoedd arian craidd wedi effeithio ar bron bob mudiad a gyfrannodd at yr ymchwil hwn. Clywyd dro ar ôl tro yn ein grwpiau ffocws sioeau penffordd a grwpiau ffocws ei fod yn cael *sgil* effeithiau amlwg gan gynnwys y gallu i fod yn strategol a gallu cynnig am gyllid er mwyn mynd ati i adeiladu dyfodol cynaliadwy.

3.28 Mae’n amlwg fod natur y cyllid sydd ar gael (ei flaenoriaethau ac amserlenni) yn cael effaith arwyddocaol ar y gwaith a wneir. Fe

nodwyd yn y dyfyniad gair am air hwn o grŵp ffocws sioe benffordd fod mudiad wedi:

‘...symud at fodel sy’n canolbwyntio mwy ar gyflawni prosiectau, [......] felly rwyn credu y gallem oll feddwl am enghreifftiau gwahanol [...e.e.] iechyd, ond nid yw hwnnw’n wasanaeth wedi’i ddiffinio o reidrwydd, (mae’r sefydliad yn) cael ei arwain yn rhannol gan y cyllid, all ein harwain at ddarparu gwasanaeth. Mae’n dangos sut mae natur y cyllid wedi’n gwthio i ddarparu fel mudiadau’ (Person mewn grŵp ffocws sioe benffordd).

- 3.29 Dywedir fod diffyg capasiti staff yn un o’r prif rwystrau wrth geisio cael gafael ar gyllid gan fod mudiadau gwaith ieuenctid sector gwirfoddol yn treulio cryn dipyn o amser yn chwilio am fuddsoddiadau. Er enghraifft, dywedodd y 37 ymatebydd i’n holiadur wrthym eu bod wedi gwneud 590 o geisiadau unigol am arian yn ystod blwyddyn ariannol 2022.23. Mae hynny’n cyfateb, yn eu hasesiad nhw, i tua 10,542 o oriau staff i wneud y ceisiadau hyn. Mae’r ffigwr hwnnw’n golygu cyfartaledd o 17 awr ar bob cais am arian.
- 3.30 Mae tystiolaeth o’n grwpiau ffocws sioeau penffordd, grwpiau ffocws gydag arweinyddion awdurdodau lleol a’r cyfweiliad gyda sefydliad cyllido oll yn dangos nad oes unrhyw gysondeb cyffredinol yn lefel y gwaith mae’n ei olygu ar draws y gwahanol ffynonellau cyllido. Mae cryn amrywiaeth yn y gwaith sydd ei angen i wneud ceisiadau am arian, yn yr adroddiadau rheolaidd a faint o gyllid ategol sydd ei angen. Dywedodd y person a holwyd o sefydliad cyllido, ‘fod angen i gyllidwyr gydnabod hynny, y ffordd yr ydym yn gofyn i bobl gyflwyno adroddiadau, yr adrodd anghymesur, mae’n wallgofrwydd’. Aeth y person a holwyd ymlaen i gyfeirio at fonitro ac adrodd, gan ddweud ‘rydyn ni’n gwneud yr holl ddiwydrwydd dyladwy, ar y dechrau, dyna’r wybodaeth fwyaf rydyn ni’n gofyn amdani, wedi hynny, mae’r

cyfrifoldeb arnon ni' (i sicrhau bod y mudiad yn cydymffurfio â blaenoriaethau cyllido).

- 3.31 Fe nodwyd nad yw'n dilyn o reidrwydd mai'r ceisiadau sy'n golygu fwyaf o waith yw'r rhai mwyaf yn ariannol. Mewn grŵp ffocws gyda rheolwyr awdurdodau lleol, dywedodd un person oedd yn bresennol 'fod gwahaniaethau rhyfeddol ar draws grantiau o ran gofynion adrodd, weithiau mae'r symiau arian yn bitw, ond yn golygu llawer iawn o waith, mae'r bwriad yn iawn, ond mae'n ymddangos yn anghymesur'. Dywedodd Prif Swyddog Ieuenctid mewn grŵp ffocws wrth drafod y gofynion adrodd ar y Grant Cefnogi Ieuenctid, 'mae'n llawer iawn o waith am y swm yna o arian'. Dywedodd cynrychiolydd un mudiad gwirfoddol mewn grŵp ffocws sioe benffordd:

'roeddem yn llwyddiannus gyda phedwar o'n ceisiadau i awdurdodau lleol trwy'r SPF [cronfa rhannu ffyniant]. Tipyn o lwyddiant, ond mae wedi golygu cymaint o waith gan fod gan bob awdurdod lleol ofynion adrodd gwahanol, amserlenni gwahanol' (Person mewn grŵp ffocws sioe benffordd).

- 3.32 Hefyd, disgrifiodd pobl oedd yn bresennol mewn nifer o'n grwpiau ffocws yr holl waith yr oedd unigolion yn ei wneud i sicrhau cyllid, ond eu bod yn gwneud y gwaith hwnnw'n wirfoddol, yn eu hamser eu hunain. Er enghraifft, 'mae mudiadau gwirfoddol bach yn gwneud llawer o waith cyfrifyddol y neu hamser eu hunain' (Person mewn grŵp ffocws sioe benffordd), ac oherwydd natur y cylchoedd cyllido mae gweithwyr ieuenctid yn aml yn gweithio dan rybudd diswyddiad. Dywedodd un person mewn grŵp ffocws sioe benffordd:

'Rydyn ni'n poeni am gynyddu ein costau ac yn ceisio mesur cyn inni ofyn am ragor gan y cynghorau cymuned sy'n ein cyllido – ond rydym yn ofalus ac yn ceisio'i wneud yn rhatach, ond nid yw bob tro'n golygu ei wneud yn well. Mae'r mudiad yn amsugno costau ac

mae staff yn amsugno oriau' (person mewn grŵp ffocws sioe benffordd).

- 3.33 Mewn rhai sefyllfaoedd, mae mudiadau o sectorau gwirfoddol a statudol yn penderfynu nad yw cynnig am rai mathau o gyllid yn ddefnydd effeithiol ac effeithlon o'u hamser. Dywedodd un Prif Swyddog Ieuencid 'y dywedwyd wrthym erbyn hyn i ofyn cyn gwneud cais am arian, 'a yw werth ei wneud' (Prif Swyddog Ieuencid). Dywedodd person o'r sector gwirfoddol mewn sioe benffordd yn glir iawn eu bod yn ystyriol iawn wrth ystyried gwneud cais ai peidio, gan ddweud 'os ydw i'n mynd am y pot arian yna, mae'n rhaid imi ystyried faint fydd yn gostio imi'.
- 3.34 Dywedodd cynrychiolydd un mudiad sector gwirfoddol wrthym eu bod yn derbyn grant o £30,000 y flwyddyn, ond oherwydd baich gweinyddol gwneud cais am yr arian, ei weinyddu ac adrodd arno nid oedd werth ei wneud, a dywedodd na fyddant yn cynnig am yr arian yn y cylch nesaf.
- 3.35 Ac ar yr un pryd, fe glywn mewn cyfweiliad gyda sefydliad cyllido fod yna lefel isel o geisiadau am fuddsoddiad gan fudiadau gwaith ieuencid yng Nghymru; allan o 2,000 o geisiadau bob blwyddyn, dim ond 100 oedd yn dod o Gymru. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod mwy o botensial i fudiadau yng Nghymru gynnig am gyllid sy'n cael ei danddefnyddio ar hyn o bryd.
- 3.36 Fel y nodwyd uchod, mae ein hymchwil yn dangos fod yr amser mae'n gymryd i godi arian yn gallu bod yn rhwystr, yn enwedig i rai mudiadau llai nad oes ganddynt y capasiti swyddfa gefn i fynd ati mor rhagweithiol ag yr hoffent i chwilio am arian. Wrth sôn am geisiadau grant dywedodd un person o'r sector gwirfoddol yn ein grwpiau ffocws sioeau penffordd:

'Gwnewch gais am ddwywaith gymaint ag yr ydych yn credu sydd ei angen arnoch i gadw i fynd. Ni fydd pob cais am grant yn

llwyddiannus. Er y gall hynny fod yn hynod siomedig, os ydych wedi treulio llawer iawn o amser ar gais, bydd rhai darparwyr grantiau yn cynnig adborth ar pam na fuoch yn llwyddiannus' (Person mewn grŵp ffocws sioe benffordd).

Amserlenni cyllido

- 3.37 Dywedwyd hefyd fod natur fyrdymor cyllido yn rhwystr ymhlith yr ymatebwyr i'n holiadur. Wrth edrych ar fanteision ac anfanteision cylchoedd cyllido byrdymor a hirdymor, ni welsom unrhyw gefnogaeth sylweddol i gylchoedd cyllido byrdymor. Bron yn unfrydol, lleisiodd pobl eu cefnogaeth i drefniadau cyllido sy'n cael ei ddarparu dros gyfnodau hirach o amser.
- 3.38 Mae amserlen cyllideb Llywodraeth Cymru yn darparu'r cyd-destun ar gyfer edrych ar gylchoedd cyllido y mudiadau gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol. Mae Tabl 3.3 yn dangos y broses pennu cyllideb ar gyfer y Grant Cefnogi Ieuenctid. Ar hyn o bryd mae'r Grant Cefnogi Ieuenctid yn cynnwys cylch cyllio 3 blynedd ac adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn mae ym mlwyddyn tri cylch 3 blynedd (blwyddyn 3 – 2024.25), a'r disgwyl yw y bydd y cyllid yn aros fel y dywedwyd yn y llythyr dyfarnu grant ar ddechrau'r cyfnod tair blynedd (pers. comm Llywodraeth Cymru). Mae'r SVYWO yn dilyn patrwm tebyg i'r broses pennu cyllideb a amlinellir yn nhabl 3.3, ond mae rhai gwahaniaethau wrth ddyfarnu'r grant. Mae grant SVWYO yn grant cystadleuol ar gyfer mudiadau gwirfoddol sydd ar gael mewn cylchoedd dwy neu dair blynedd. Pan awn i mewn i gylch newydd o grant SVWYO byddwn yn rhoi gwybod i fudiadau llwyddiannus unwaith y cytunwyd y gyllideb. Yna rydym yn cytuno cynlluniau gwaith ar gyfer cyfnod y grant, ond byddwn yn eu hadolygu a'u newid yn ôl y galw trwy gydol y grant. Bydd rhai mudiadau'n derbyn blaen daliad cyntaf ym mis Ebrill, ac yna'n chwarterol wedi hynny, a bydd angen adroddiad monitro bob chwech a 12 mis.

Tabl 3.3 Pennu cyllideb Grant Cefnogi Ieuenctid Llywodraeth Cymru


| Mis | Gweithgaredd Ariannol |
|----------------|---|
| Canol Chwefror | Cyflwyno cynlluniau gwaith i Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. |
| Mawrth | Cytuno cynlluniau gwaith ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. |
| Canol Mawrth | Byn hawliadau diwedd blwyddyn ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. |
| Canol Ebrill | Derbyn adroddiadau monitro diwedd blwyddyn. |
| Diwedd Ebrill | Gwerthuso'r datganiad gwariant i wirio cywirdebau cyfrifo terfynol. |
| Hydref | Derbyn adroddiadau hawliadau 6 mis |

Gan Lywodraeth Cymru (2023)

3.39 Mae Ffigur 3.5 yn dangos am ba gyfnodau y mae cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru yn y sector gwirfoddol: Mae saith deg saith y cant o'r cyllid am hyd at flwyddyn; mae 12 y cant am hyd at ddwy flynedd; mae saith y cant am hyd at dair blynedd; mae tri y cant am hyd at bedair blynedd a dom ond un y cant sydd am hyd at bum mlynedd. Mae hyn awgrymu fod y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yn gwneud cryn dipyn o waith yn chwilio am ffynonellau cyllid posib.

Ffigur 3.5 Hyd y Cyfnodau Cyllido a Adroddwyd gan Ymatebwyr i'n Holiadur Sector Gwirfoddol

(n=37).



3.40 Roedd edefyn cyffredin yn rhedeg trwy ein grwpiau ffocws sioeau penffordd a chyfweliadau hefyd, yn y sectorau gwaith ieuenctid gwirfoddol a statudol, sef fod y cyfnodau amser sydd ynghlwm wrth y cyllid yn rhy fyr. Nid yn y sector gwirfoddol yn unig y mae hyn yn berthnasol, ac fe nododd Prif Swyddog Ieuenctid effaith hyn ar y sector:

‘Nid oes dim byd yn hirdymor – mae’r cyllid yn aml yn fyrdymor – felly mae canfod yr effaith yn nhermau gwaith ieuenctid yn gallu bod yn anodd’ (Prif Swyddog Ieuenctid).

3.41 Dechreuodd aelod o’r sector gwirfoddol un o’n grwpiau ffocws sioeau penffordd trwy gyfeirio at yr angen dybryd am gyllid tymor byr gan Lywodraeth Cymru (Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles), sef:

‘Ei fod yn fyrhoedlog.... A dyna’r gofid i fudiadau gwirfoddol, sef sut allwch chi gynnal yr hyn rydych yn ei wneud? Rydym yn codi disgwyliadau’r bobl ifanc hynny a’u teuluoedd, ac yn sydyn iawn mae’n gweld nad oes unman iddyn nhw fynd’ (Cyfranogydd o’r sector gwirfoddol).

- 3.42 Mewn grwpiau ffocws sioeau penffordd cyfeiriwyd at realiti cyllido ansicr. Mewn un enghraifft, fe nodwyd y gellir gweld gostyngiad o 75 y cant yn faint o waith ieuencid sydd ar gael yn lleol, oherwydd penderfyniadau cyllido, sef yn benodol:

‘ein bod wedi mynd fel mudiad cymunedol o bedair noson i ddim ond un noson yr wythnos. Fe fyddwn i’n dweud y gwaethygodd pethau yn y ddwy flynedd ddiwethaf neu yn y cyfnod wedi COVID, ond pan gawsom yr haf o hwyl a’r gaeaf llawn lles, waw, dyna beth oedd chwistrelliad’ (Cynrychiolydd o’r sector gwirfoddol).

- 3.43 O ran y dyfyniad hwn mae’n werth nodi y darparwyd y ffynonellau cyllido hyn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer sawl mudiad, a byddai peth ohono’n cael ei ystyried yn waith ieuencid, tra bod eraill yn rhan o wasanaethau ehangach i bobl ifanc.

- 3.44 A soniodd person arall mewn sioe benffordd wrthym am effaith yr ansefydlogrwydd hwn trwy ddatganiad gan feddyg teulu lleol a ddywedodd:

‘Dydw i ddim yn cyfeirio pobl ifanc atoch chi gan nad ydw i’n gwybod a fyddwch chi yno o hyd’.

- 3.45 Dywedodd un ymatebydd mewn grŵp ffocws sioe benffordd, ‘mae wedi torri, nid yw’r amserlenni cyllido yn realistig’. Dywedodd un ymatebydd mewn grŵp ffocws sioe benffordd yng nghymoedd y De, ‘rydym ar ymyl y clogwyn, yn byw ar friwsion, os ddewch yn ôl mewn 12 mis, bydd hanner y bobl yma wedi mynd’ (Ymatebydd mewn grŵp ffocws sioe benffordd).

- 3.46 Dywedodd Prif Swyddog Ieuenctid wrth y tîm ymchwil fod cyllid grant tymor byr a ddarparwyd i alluogi'r gwasanaeth Ieuenctid i ymateb i bandemig Covid wedi arwain at:
- 'flwyddyn neu ddwy foethus iawn, plant yn teimlo fod gwerth iddynt, eu bod yn cael eu cydnabod a bod rhywun yn gwrando arnynt, ond ar ôl y dylifiad hwnnw o gyllid annisgwyl mae'r maes fel mynwent eliffantod erbyn hyn' (Prif Swyddog Ieuenctid).
- 3.47 Hyd yn oed pan roedd arian wedi cael ei sicrhau, fe nodwyd fod taliadau weithiau'n hwyr neu'n arafach yn cyrraedd. Dywedodd fod chwech o'r bobl a ymatebodd i'n holiadur fod hyn yn rhwystr. Mewn un ardal dywedodd ymatebydd mewn grŵp ffocws sioe penffordd eu bod wedi derbyn arian oedd yn ddyledus ym mis Ebrill ym mis Chwefror y flwyddyn ganlynol.
- 3.48 Mae'r canfyddiadau yn cynrychioli pryderon a leisiwyd ar draws y sector ac sy'n ganolog i gylch gorchwyl ein hymchwil i 'helpu cyfrannu at ddatblygu model cynaliadwy ar gyfer gwaith Ieuenctid yng Nghymru'. Mae angen ystyried cysondeb y buddsoddi, o ble mae'n dod, sut mae buddsoddiadau'n cael eu defnyddio wrth chwilio am fodel cynaliadwy.

Cydweithio

- 3.49 Roedd enghreifftiau o arfer da rhwng mudiadau a chyllidwyr:
- 'Mae gan [Enw'r sefydliad cyllido] arfer da iawn, gan fod y cwestiynau ar y ffurflen gais yn rhai byr, maen nhw'n mynd ati'n gyflym i drefnu sgwrs dros fideo i ystyried cymhwysedd, cyfathrebu, a chefnogaeth trwy gydol y broses gwneud cais' (Person mewn grŵp ffocws sioe benffordd).
- 3.50 Fe nodwyd hefyd fod gan [Enw'r sefydliad cyllido] broses gwneud cais trwy fideo:

'mae'n rhwyddach wrth weithio gyda phobl ifanc i ddarparu tystiolaeth o gydlynedd yr elusen' (Person mewn grŵp ffocws sioe benffordd).

3.51 Dywedodd cyfranogydd fod gan 'Moondance broses gwneud cais syml a'u bod ar gael i drafod unrhyw newidiadau, mae'r gofynion o ran adroddiadau a thystiolaeth gwariant yn syml' (Person mewn grŵp ffocws sioe benffordd). Mae rhai mudiadau'n gwerthfawrogi'r cyfle i weithio gyda chyrrff cyllido er mwyn gallu symud arian o fewn grant i allu ymateb i a diwallu anghenion sy'n ymddangos, ac roedd y cyfleuster hwn yn cael ei ystyried yn elfen bwysig o arfer da wrth gyllido.

3.52 Gwelsom fod y grant i Fudiadau Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol Strategol yn cael croeso mawr:

'mae'n amlwg o ran hyd y grant, y ffordd y mae'n alinio gyda pholisi a blaenoriaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru' (Ymatebydd i'r holiadur).

3.53 Yn ein cyfweiliad gyda sefydliad cyllido elusennol, clywsom am eu hymagwedd strategol at gefnogi mudiadau; yn hytrach na darparu cyllid yn unig, maent yn ystyried mai eu rôl yw darparu buddsoddiadau a gweithio gyda mudiadau i adeiladu eu capasiti i fod yn gynaliadwy a gwydn.

3.54 Roedd enghreifftiau lle'r oedd gan fudiadau sector gwirfoddol strategaethau codi arian soffistigedig a sefydliedig sy'n lliniaru'r risg o fod yn orddibynnol ar ffynonellau cyllid tymor byr:

'Er ein bod yn ddibynnol iawn ar arian grant, ein nod yw cynnal nifer o ffrydiau incwm gwahanol. Rydym wedi, ac mae'n bosib y galledd, dyfu contractau gwasanaeth gyda'r awdurdod lleol. Rydym yn gwerthu gwasanaethau hyfforddiant galwedigaethol i ysgolion lleol ar gyfer sesiynau liw ddydd. Rydym yn meithrin perthnasoedd gyda busnesau mawr lleol i annog rhoddion corfforaethol. Rydym

yn derbyn comisiynau i gynhyrchu ffilmiau a cherddoriaeth (er bod y sawl sy'n eu comisiynu yn aml yn tanbrisió'n ddifrifol y costau cynhyrchu dan sylw). Rydym yn llogi ein gofod i'w ddefnyddio gan grwpiau eraill. Mae ein pobl ifanc yn trefnu eu gwaith codi aria neu hunain, yn cynnal arddangsofeydd celf, dyddiad agored, arwerthiannau crefft a chynnig gwasanaethau golchi ceir. Creu amrywiaeth yw'r allwedd i sicrhau bod cyllid yn dod mewn i'r adeilad o sawl ffynhonnell. Mae hefyd yn cynnig y fantais o ddangos i ddarparwyr grantiau nad ydym yn gwbl ddbynnol arnyn nhw. Mae'n arddangos ein hawydd a'n hyblygrwydd a'n penderfyniad i lwyddo' (Rheolydd Prosiectau yn y Sector Gwirfoddol).

3.55 A nododd cynrychiolydd o fudiad gwirfoddol arall:

'Mae gennym Strategaeth Codi Arian. Gwnaethom ei datblygu gyda help gan y Sefydliad Codi Arian. Roedd yn ymarferiad da i fynd trwyddo. Rydym yn deall cryfderau a gwendidau ein mudiad, mae gennym nodau penodol am faint rydym eisiau ei godi ac ar gyfer beth. Mae gennym restr o syniadau ar gyfer sut i wneud iddo ddigwydd. Cafodd rhai o'r syniadau eu gweithredu ac mae rhai i'w gwneud eto. Er hynny, thema gyson yw marchnata ein hunain yn dda ac yn well, ac rydym yn canolbwyntio ar hyn mor aml ag y gallwn, ceisio codi ein proffil, rhoi sylw i'n cymuned leol, ac ymateb i'w hanghenion'.

3.56 Yn ogystal â'r rhwystrau rhag gallu sicrhau cyllid, roedd pobl mewn sioeau penffordd yn cyfeirio'n aml at bwysigrwydd perthnasoedd gwaith, a dywedodd un 'rydym yn gweithio mewn partneriaeth â mudiadau eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc...[ac] mae gennym nifer o bartneriaethau gyda mudiadau lleol megis grwpiau treftadaeth ac rydym wedi gweithio gydag ysgolion lleol (yn uwchradd a chynradd), dros y blynyddoedd' (Person mewn grŵp ffocws sioe benffordd). Dywedodd person arall mewn grŵp ffocws sioe benffordd:

'rydym yn aelodau o CWVYS ac mae gennym bartneriaethau da gyda mudiadau gwirfoddol eraill o'r herwydd. Rydym yn cydweithio ar adnoddau ac rydym wedi trafod gwneud ceisiadau am arian ar y cyd. Fodd bynnag, gellid gwella hynny a gallai'r sector gwirfodol gael mwy o gefnogaeth i alluogi hynny i ddigwydd' (Person mewn grŵp ffocws sioe benffordd).

- 3.57 Mae cyfathrebu gyda chyllidwyr, cysylltiadau gyda CWVYS a chwarae rhan weithgar mewn rhwydweithiau lleol yn cael eu hystyried yn bwysig o ran ceisio cael gafael ar arian. Fe nodwyd yn yr ymatebion i'n holiadur fod 59 y cant o'r ymatebwyr yn cydnabod eu bod yn cydweithio gyda mudiadau eraill, ond nid yw 41 y cant yn gwneud hynny.
- 3.58 Cyfeiriodd un Prif Swyddog Ieuentid at y 'frwydr ddiddiwedd i gadw'r goleuadau ymlaen' ac, wrth i gyllidebau leihau, 'fod partneriaethau wedi mynd yn llai oherwydd pwysau cyllidebol'. Wedi dweud hynny, nododd y Prif Swyddog Ieuentid hefyd fod 'gwaith partneriaeth ychydig yn rhwyddach pan rydych yn gyfrifol am gyllidebau',
- 3.59 Disgrifiodd Prif Swyddog Ieuentid sut yr oedd yn gweithio mewn partneriaeth mewn fforwm er mwyn gweinyddu'r Grant Plant a Chymunedau; roedd prosiectau a gyllidwyd, o chwarae, i Dechrau'n Deg a phrosiectau a gyllidwyd yn y gwasanaeth ieuentid oll yn cael eu hadolygu ar gyfer gwerth am arian, troedd swyddogion yr awdurdod lleol yn cynnig trosolwg, mae'r broses yn cynnwys gwasanaethau awdurdodau lleol yn cyflwyno cynlluniau y mae'r bartneriaeth yn eu hystyried pan mae cynlluniau yn gydnaws â strategaethau lleol.
- 3.60 Roedd lefelau partneriaeth a chydweithio rhwng y sector gwirfoddol a'r sector statudol yn amrywiol. Disgrifiodd un person mewn grŵp ffocws sioe benffordd:

'angen cymryd y sector gwirfoddol o ddifrif, angen bod yn bartnership ac nid yn ôl-ystyriaeth'.

- 3.61 Mewn sawl grŵp ffocws sioe benffordd gyda chynrychiolwyr y sector gwirfoddol, clywsom am ddiffyg rhannu gwybodaeth amserol, a dywedodd un person oedd yn bresennol 'nad oedd unrhyw gynllunio strategol neu ar y cyd, dadansoddi bylchau na rhannu gwybodaeth'. Mewn grŵp ffocws sioe benffordd arall dywedwyd 'nad yw'r broses gwneud penderfyniadau yn glir, nid yw'n ymddangos yn gydlynus'.
- 3.62 Mewn grŵp ffocws arall dywedodd cynrychiolydd o'r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol 'nad ydym yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau strategol na'r cynllunio gyda'r awdurdod lleol' (Ymatebydd mewn grŵp ffocws sioe benffordd).
- 3.63 Mae'r sylwadau hyn yn cynrychioli nifer fawr o enghreifftiau ledled Cymru lle y mae perthnasoedd yn cael eu hystyried yn bwysig, ond lle y teimlir fod angen gwella'r cydweithio lleol rhwng y sector gwirfoddol a gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol.
- 3.64 Mae 19 y cant o ymatebwyr o'r sector gwirfoddol i'n holiadur yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau gwariant yn yr awdurdod lleol, tra bod 81 y cant yn teimlo nad oes ganddynt unrhyw ddylanwad ar benderfyniadau awdurdodau lleol.

Gwariant

- 3.65 Bydd yr adran hon yn amlinellu dadansoddiad o wariant:
- cyflwynir trosolwg o'r canfyddiad o wariant,
 - adolygiad o *arian wrth gefn*
 - mae staffio yn cael ei ystyried (gan gynnwys gweithwyr am dâl a gwirfoddolwyr)
 - rhoddir sylw i fuddsoddi mewn hyfforddiant
 - ac yn olaf, cyflwynwn drosolwg o'r holl wariant ar draws y sector statudol a'r sector gwirfoddol.

Canfyddiadau o wariant

- 3.66 Cyflwynodd y data cymharol o'n grwpiau ffocws yn y sioeau penffordd enghreifftiau o doriadau i'r gyllideb graidd a'r angen wedyn i ad-drefnu gwasanaethau. Er enghraifft, soniodd Prif Swyddog Ieuentid am y pwysau oedd yn deillio o doriadau i'r gyllideb graidd, gan gadarnhau'r sefyllfa gyffredin sef y defnyddir arian craidd ar gyfer darpariaeth gyffredinol, ac oherwydd toriadau, y cafodd y gwasanaeth ei ad-drefnu, gan symud o gael 14 canolfan ran amser i ddwy ganolfan a thîm yn gweithio ar y strydoedd. Dywedodd Prif Swyddog Ieuentid arall y cafwyd toriadau yn eu hardal nhw oedd wedi golygu y cafodd nifer y clybiau ieuentid eu torri o 22 i dri ac y bu'r gyllideb graidd mor isel â £30,000 y flwyddyn. Dywedodd Prif Swyddog Ieuentid arall 'y gwelwyd y trosiant mwyaf erioed yn y 18 mis diwethaf, mae pobl yn gadael am swyddi sy'n talu'n well'.


Arian Wrth Gefn

- 3.67 Mae'n arfer da i fudiadau sector gwirfoddol gadw arian wrth gefn. Diffiniad y Comisiwn Elusennau (2023) o arian wrth gefn yw "rhan o gronfeydd anghyfyngedig elusen sydd ar gael i'w wario ar unrhyw un o ddibenion yr elusen" a, gan ddibynnu ar bolisi'r mudiad gellir cadw rhyw lefel o'r cronfeydd hyn, neu weithio tuag at, er mwyn lliniaru'r risg o oedi yn derbyn cyllid, prinder cyllid a rhwymedigaethau eraill.
- 3.68 Gwelsom fod arian wrth gefn wedi cynyddu yn 2021.22, gan 16.7 y cant ac ym mlwyddyn ariannol 2022.23 cynyddodd yr arian wrth gefn gan 6.08 y cant. Ni chafodd y ffigyrau hyn eu haddasu ar gyfer chwyddiant. Hefyd, mae arian wrth gefn mudiadau gwirfoddol cenedlaethol tua phedair gwaith yn fwy na mudiadau gwirfoddol lleol. Dywedodd pedwar mudiad nad oedd ganddynt unrhyw arian wrth gefn o gwbl, a dywedodd pum mudiad na fu unrhyw newid yn lefel eu harian wrth gefn er 2020.

Staffio

- 3.69 Cafwyd gostyngiad o 75 y cant yn nifer y gwirfoddolwyr yn y sector statudol rhwng 2010 a 2023 (gweler Ffigur 3.6). Mae dadansoddiad o'r ymatebion i'n holiadur yn dangos fod llawer mwy o wirfoddolwyr yn y sector gwirfoddol; am bob 1 gweithiwr cyfwerth ag amser llawn mae 30 gwirfoddolydd yn y sector gwirfoddol (cymhareb gweithiwr amser llawn i wirfoddolwyr cyfartalog rhwng 2020.2023) o gymharu ag 1 gweithiwr cyfwerth ag amser llawni 0.15 gwirfoddolydd yn y sector statudol, yn ôl y data archwilio blynyddol.
- 3.70 Mae'r ymatebion i'n holiadur yn dangos fod cyfanswm o tua 8,880 o wirfoddolwyr yn gwirfoddoli ym mudiadau'r sawl a ymatebodd l'r holiadur. Ar y sail fod o leiaf 171 o fudiadau ledled Cymru, amcangyfrifwn fod 44,400 o wirfoddolwyr yn gweithio yn y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol ar draws Cymru. Mae'r ffaith fod gan y sector statudol gryn dipyn yn llai o wirfoddolwyr yn golygu y bydd prosiectau yno yn fwy costus. Hefyd, gan y cododd yr isafswm cyflog cenedlaethol o £5.93 yn 2010 i £10.42 erbyn 2023 mae hyn wedi cynyddu'r pwysau ar gyflogau staff sy'n gweithio mewn adrannau gweinyddol neu sy'n staff gwaith ieuenctid ar ddechrau eu gyrfaedd.
- 3.71 Mae tystiolaeth o'n grwpiau ffocws yn dangos goblygiadau'r costau staffio uchel hyn yn y sector statudol. Fe nodwyd ymhob cyfweiliad y bu cyllidebau dan bwysau bob blwyddyn am fwy na degawd, a gwelir hynny yn y dyfyniad canlynol sy'n dweud:
- 'y bu'n rhaid i'r gwasanaeth ieuenctid statudol wneud toriadau anghymesur dros gyfnod hir o amser' (Prif Swyddog Ieuenctid).
- 3.72 Roedd ymdeimlad cyffredinol ei bod yn anochel y byddai'n rhaid torri cyllidebau mewn awdurdodau lleol. Fe nodwyd:
- 'fod effaith y toriadau i'r gyllideb yn golygu gwasanaethau anghyson, staff yn teimlo'n euog, danfonodd ein Prif Weithredwr kythyr o gefnogaeth i staff, ac mae hyn yn golygu ad-drefnu popeth (Prif Swyddog Ieuenctid).

Ffigur 3.6 Cyfanswm y Staff Statudol Fesul Rolau Swyddi Rhwng 2010-2023



Buddsoddi mewn Hyfforddiant


3.73 Roedd gwariant ar hyfforddiant 2022.23 yn uwch yn y sector statudol, o gymharu ag ymatebwyr o'r sector gwirfoddol. Roedd y gwariant cyfartalog ar hyfforddiant yn y sector statudol yn 1.26 y cant rhwng blynyddoedd ariannol 2010 a 2023 ac mae wedi bod yn sefydlog, sy'n dangos fod awdurdodau lleol wedi ceisio cynllunio gwariant ar hyfforddiant, er ei fod yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn oherwydd cylchoedd cyllido. Dangosodd ein dadansoddiad fod Ynys Môn yn dweud eu bod wedi gwario 13 y cant o gyfanswm eu gwariant ar hyfforddiant (blynyddoedd ariannol 2022-2023), ac mae hyn yn gynydd arwyddocaol ar y blynyddoedd diwethaf ac yn amlwg wahanol i awdurdodau eraill.

3.74 Prif Swyddogion Ieuenctid yn ystyried cynllunio'r gweithlu yn bwysig ac mae cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad yn rhan annatod o ddatblygu gweithlu effeithiol. Dywedodd Prif Swyddogion Ieuenctid eu bod yn darparu cryn dipyn o hyfforddiant mewnol, yn buddsoddi mewn hyfforddiant i'w staff, a dywedodd un fod ganddynt strategaeth i 'dyfu ein gweithwyr ieuenctid ein hunain'. Dywedodd Prif Swyddog


leuenctid arall fod 'gwaith ieuenctid yn swydd, nid yn yrfa, nid oes unrhyw ddatblygiad'. Ac ychwanegodd Prif Swyddog leuenctid arall wrth sôn am gael hyfforddiant cymhwyso proffesiynol mewn gwaith ieuenctid 'y byddai'n rhaid ichi fod yn wirion i fynd i brifysgol a dod allan mewn dyled ac ennill cyflogau gwael' (Prif Swyddog leuenctid). Mae hyn yn amlygu rhai o'r heriau sy'n wynebu'r sector wrth geisio adeiladu model cynaliadwy.

Trosolwg o gyfanswm y gwariant ar draws y sector statudol a gwirfoddol.

Ffigur 3.7a. 2010-2011 Cyfanswm Dyranriad Gwariant i Wasanaethau Gwasanaethau Ieuenctid Statudol




Ffigur 3.7b. 2022-2023 Cyfanswm Dyraniad Gwariant i Wasanaethau Gwasanaethau Ieuenctid Statudol



Cafodd y siartiau pei eu gwneud trwy ddefnyddio rhifau go iawn sy'n cael eu haddasu yn ôl y CPI gan ddefnyddio mynegai'r ONS i flwyddyn ariannol 2022.23. Caiff canrannau eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

3.75 Mae Ffigurau 3.7a a 3.7b yn dangos y dyraniadau gwario a wnaed gan y sector statudol ym mlynnyddoedd ariannol 2010.11 a 2022.23. Mae staffio, cyflogau, costau adnoddau, costau eraill a threuliau gweinyddol, hyfforddiant a chostau adeiladau yn cynrychioli 80.2 y cant ac 89.1 y cant o gyfanswm y gwariant ym mlynnyddoedd ariannol 2010.11 a 2022.23. Y tueddiad mwyaf oedd y cynnydd arwyddocaol yng nghostau cyflogau dros y 13 mlynedd diwethaf, pan gafwyd cynnydd o 13% yn y gwariant ar staff. Mae'r gwariant ar adeiladau wedi haneru dros yr un cyfnod. Y rheswm am hynny yw y gwerthwyd adeiladau hŷn, symud hybiau i unedau rhent i osgoi costau cynnal a chadw uchel, a'r ffaith na chafodd adeiladau rhent eu hamnewid. Bu costau adnoddau newydd yn sefydlog dros y cyfnod.

Ffigur 3.8 Cyfanswm Dyranriad Gwariant ymatebwyr Sector Gwirfoddol ar gyfer 2022.23



3.76 Mae Ffigur 3.8 yn dangos sut mae gwariant yn gymesur debyg i'r hyn ydyw yn y sector statudol. Fodd bynnag, mae gwariant ar adeiladau, fel canran o gyfanswm y gwariant, ddwywaith yn uwch ar gyfer mudiadau sector gwirfoddol. Hefyd, mae costau adnoddau, fel canran o gyfanswm y gwariant, bum pwynt canrannol yn uwch yn y sector gwirfoddol o gymharu â'r sector statudol.

3.77 Yn 2022.23 rhoddir yr 11 y cant o wariant y sector statudol yng nghategori 'arall' ac mae gan y sector gwirfoddol 7 y cant o'r gwariant yn y categori hwn. Ar gyfer y sector statudol, nid yw'r archwiliad blynyddol y daw'r data ohono yn manylu ar y mathau o gostau y gallai gwasanaethau ieuentid fod yn eu categoreiddio'n 'arall'. Fodd bynnag, yn yr ymatebion l'r holiadur o'r sector gwirfoddol, roedd rhai enghreifftiau o wariant 'arall' a roddwyd inni yn cynnwys costau yswiriant, ffioedd cyflogres a ffioedd archwilio. Gan fod ganddynt broffiliau gwariant tebyg, mae dwy ran y sector gwaith ieuentid yn wynebu costau cynyddol, yn enwedig felly gostau staffio.

Llywodraethiant, Atebolrwydd a Gwneud Penderfyniadau

3.78 Bydd yr adran hon yn edrych ar y prosesau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd yn y sectorau gwirfoddol a statudol:

- rhoddir sylw i'r ffyrdd gwahanol y mae awdurdodau lleol yn dyrannu cyllid
- llywodraethiant yn y sector gwaith ieuencid gwirfoddol
- caiff gwneud penderfyniadau ar y cyd ei adolygu
- caiff lefel ymglymiad pobl ifanc ei drafod.

Dyrannu cyllid mewn awdurdodau lleol

3.79 Dangosodd ein grwpiau ffocws sioeau penffordd, grwpiau ffocws a chyfweliadau fod gan gyfranogwyr yn y gwahanol sectorau safbwyntiau gwahanol am y manteision a'r anfanteision perthnasol, boed hynny yn y sector statudol neu'r sector gwirfoddol. Fe nododd cyfranogwyr yn y sector statudol fod y sector gwirfoddol yn gallu gwneud cais am fwy o ffynonellau cyllid na'r sector statudol a bod hynny'n cynnig mesur o annibyniaeth. Roedd mudiadau sector gwirfoddol an dweud yn aml fod gan y sector statudol arian craidd y gellir dibynnu arno a bod hynny'n rhoi lefel uwch o gysondeb iddynt. Ni chefnogwyd hynny mewn cyfweliadau gyda swyddogion awdurdodau lleol oedd yn teimlo fod eu cyllidebau o dan bwysau cyson ar i lawr.

3.80 Mae'r penderfyniadau cyllido ar gyfer gwaith ieuencid sector statudol yn digwydd o fewn cyd-destun ehangach yr awdurdodau lleol y maent yn gweithredu oddi fewn iddynt, felly mae'n bwysig deall sut mae cyllid awdurdodau lleol yn gweithio. Mae'r setliad ariannol blynyddol i lywodraeth leol yn penderfynu faint o'r cyllid a ddarperir i Gymru, a faint fydd yn cael ei roi i bob awdurdod lleol. Yr enw ar y cyllid hwn yw'r Grant Cynnal Refeniw (RSG) a Threthi Annomestig (NDR) ac fe gaiff ei ddsbarthu ar sail fformiwla seiliedig ar angen. Mae gweithgor rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, sef yr Is-grŵp Dosbarthu, yn gyfrifol am sicrhau y caiff y fformiwla ei hadolygu'n

rheolaidd. Mae gweddill cyllid awdurdodau lleol yn cael ei godi'n lleol trwy dreth y cyngor, sy'n cael ei bennu gan bob awdurdod lleol fel rhan o'u proses pennu'r gyllideb. Hefyd, gall awdurdodau lleol gynnig am gyllid ychwanegol trwy raglenni grant Llywodraeth Cymru. (Llywodraeth Cymru, 2023, Ystadegau Cymru Gwaith Ieuenctid).

- 3.81 O fewn y Grant Cynnal Refeniw, mae pob maes gwasanaeth (yn y cyswllt hwn y gwasanaeth ieuenctid) yn derbyn swm penodol o gyllid. Mae ffigyrau'r RSG yn ffigyrau cyllidebol tybiannol, ac maent yn gwasanaethu'n flociau adeiladu ar gyfer yr Asesiad o Wariant Safonol, 'nid ydynt yn dargedau gwariant ar gfer gwasanaethau unigol ac nid oes unrhyw fwriad iddynt fod yn rhagnodol mewn unrhyw ffordd' (Llywodraeth Cymru, 2020, t.VII). Caiff lefel dybiannol y cyllid RSG hwn ei gyfrifo fel rhan o broses yr asesiad o wariant safonol, gyda'r bwriad o sefydlu anghenion ac argaeledd adnoddau. Mae pennu'r RSG yn golygu asesu ffigyrau poblogaeth, y niferoedd disgyblion diweddaraf a'r mathau o bethau y gallech dybio fyddai'n tanio angen mewn ardaloedd unigol.
- 3.82 Nid yw'r defnydd o'r Grant Cynnal Refeniw gan awdurdodau lleol wedi'i neilltuo ar gyfer unrhyw faes, gan gynnwys gwaith ieuenctid, ac o'r herwydd caiff ei benderfynu gan bolisiâu lleol. Golyga hynny fod y ffigwr hwn yn enwol yn unig, ac mae gan awdurdodau lleol ryddid i wneud eu penderfyniadau gwario eu hunain.
- 3.83 Arweiniodd hyn at amrywiaethau mawr ar draws Cymru, fel y gwelir yn Nhabl 3.4, sy'n dangos faint o'r ffigwr RSG enwol hwn sy'n cyrraedd gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yn incwm craidd. Mae 100 y cant yn dangos fod cyllideb graidd y gwasanaeth ieuenctid yn yr awdurdod lleol hwnnw yn cyfateb i'r ffigwr enwol a ddyrannwyd yn Setliad Refeniw Llywodraeth Cymru. Mae ffigwr yn uwch na 100 y cant yn dangos fod yr awdurdod lleol wedi buddsoddi mwy na'r ffigwr RSG enwol.

Tabl 3.4 Cyllideb Graidd Gwasanaeth Ieuenctid pob Awdurdod Lleol fel Canran o Setliad Refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwaith Ieuenctid


| Awdurdod Lleol | Y cant 2020.21 (%) | Y cant 2021.22 (%) | Y cant 2022.23 (%) |
|-----------------------------|---------------------------|---------------------------|---------------------------|
| Ynys Môn | 120 | 139 | 157 |
| Gwynedd | 107 | 99 | 117 |
| Conwy | 111 | 124 | 115 |
| Sir Ddinbych | 96 | 91 | 90 |
| Sir y Fflint | 110 | 108 | 103 |
| Wrecsam | 139 | 139 | 140 |
| Powys | 73 | 85 | 106 |
| Ceredigion | 37 | 73 | 64 |
| Sir Benfro | 67 | 73 | 78 |
| Sir Gaerfyrddin | 64 | 91 | 81 |
| Abertawe | 43 | 28 | 26 |
| Castell-nedd Port Talbot | 56 | 58 | 55 |
| Penybont ar Ogwr | 18 | 52 | 23 |
| Bro Morgannwg | 131 | 136 | 133 |
| Caerdydd | 54 | 70 | 66 |
| Rhondda Cynon Taf | 140 | 128 | 118 |
| Merthyr Tudful | 121 | 138 | 133 |
| Caerffili | 106 | 97 | 117 |
| Blaenau Gwent | 91 | 96 | 79 |
| Torfaen | 96 | 100 | 95 |
| Sir Fynwy | 135 | 136 | 98 |
| Casnewydd | 17 | 24 | 15 |
| Cyfanswm Cymru Gyfan | 82% | 87% | 84% |

3.84 Mae gan Gasnewydd, Penybont ar Ogwr ac Abertawe y symiau isaf o gyllideb graidd y gwasanaeth ieuenctid yn gyson o gymharu â ffigwr yr RSG. Roedd Ynys Môn, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Wrecsam, a Bro Morgannwg yn gyson yn dyrannu mwy na'r ffigwr RSG enwol i gyllideb graidd eu gwasanaeth ieuenctid.

3.85 Mae'n werth nodi ystod y ffigyrau; rhwng 15 y cant a 157 y cant o'r ffigwr setliad RSG enwol ar gyfer gwaith ieuenctid, Mae hyn yn dangos fod gwahaniaeth mawr yn lefel y cyllid a ddarperir ar gyfer gwaith ieuenctid ledled Cymru yn y sector statudol.

- 3.86 Nid yw penderfyniadau ynghylch dyrannu arian craidd a defnyddio'r RSG yn cael eu gwneud ar lefel Prif Swyddogion leuenctid, ond yn hytrach ar lefel Cyfarwyddwr Corfforaethol/aelod etholedig lleol. Er hynny, fe nodwyd yn gyson fod Prif Swyddogion leuenctid yn gwneud penderfyniadau ynghylch y defnydd o gyllid y Grant Cefnogi leuenctid (a drafodir yn yr adran ar Incwm). O ran arian craidd, roedd hwnnw'n cael ei ddyrannu'n ganolog, ac o'r herwydd nid oedd gan Brif Swyddog leuenctid 'unrhyw lais yn hynny'.
- 3.87 Gwelsom mai dyna oedd y sefyllfa yn y rhan fwyaf o awdurdodau, a nododd Prif Swyddog leuenctid arall:
- 'Nid wyf yn rhan o broses pennu'r gyllideb graidd, rwyf yn cael gwybod beth yw fy nghyllideb ym mis Chwefror ar gyfer y flwyddyn i ddod'.
- 3.88 Disgrifiodd y rhan fwyaf o'r Prif Swyddogion leuenctid a gymerodd ran yn ein grwpiau ffocws eu cylchoedd cynllunio gwaith, ac maent yn aml yn cynllunio ar gyfer cylch tair blynedd. Mae Ffigur 3.9 yn cynnig darlun o gylch pennu'r gyllideb mewn un awdurdod lleol. Mae gwasgbwyntiau yn amlwg o fewn y broses, ac felly hefyd flaenoriaethau, i weithio gyda 'phwysau' ac adnabod 'bylchau' a 'lliniariadau'.
- 3.89 Gellir gweld proses pennu cyllidebau awdurdodau lleol yn Ffigur 3.9. Darparwyd y wybodaeth yn Ffigur 3.9 gan uwch reolydd awdurdod lleol yn dilyn grŵp ffocws.

Ffigur 3.9 Enghraifft o Broses Pennu Cyllideb Flynyddol Awdurdod Lleol



- 3.90 Yn gyffredinol, mae lefelau gwahanol o graffu yn y gwasanaeth ieuenctid statudol, ac mae rhai Prif Swyddogion Ieuenctid yn gweld y broses yn gyfle i'w gwasanaeth arddangos llwyddiannau, ond mewn ardaloedd eraill roedd craffu penderfyniadau yn broses gyson. Mewn un awdurdod lleol fe nodwyd fod 'baich craffu a llywodraethiant' (y gwasanaeth ieuenctid statudol gan aelodau etholedig) yn rhyfeddol' (Prif Swyddog Ieuenctid).
- 3.91 O fewn y broses graffu hon roedd canfyddiad fod 'gwaith ieuenctid yn bysgodyn bach mewn pwll cyngor mawr' (Prif Swyddog Ieuenctid). Yn nhri o'r pedwar grŵp ffocws gyda Phrif Swyddogion Ieuenctid, dywedwyd fod aelodau etholedig lleol yn ystyried darpariaeth leol gan y gwasanaeth ieuenctid yn werthfawr, ond mae pwysau ar y gyllideb yn golygu nad yw bob tro'n bosib cael gwaith ieuenctid mewn ardal. Yn ein grwpiau ffocws sioeau penffordd sector gwirfoddol, fe nodwyd fod gwaith ieuenctid yn bysgodyn bach yn ariannol, ond yn wleidyddol yn bysgodyn mawr ar lefel leol. Cefnogir hynny gan y dyfyniad fod:
- 'Aelodau etholedig eisiau gwasanaeth ieuenctid y neu milltir sgwâr' (Prif Swyddog Ieuenctid).
- 3.92 Awgrymwyd hefyd y gallai amgylchiadau lleol fod yn fantais i'r gwasanaeth ieuenctid, sef yn benodol:
- 'Safleoli, mae'n fwy o lwc na phenderfyniad, mae'n cael dylanwad mawr, pa mor gymdeithasol ydych chi, pa mor ddylanwadol yw eich aelodau a chael lleoliad sy'n gwerthfawrogi eich gwaith' (Prif Swyddog Ieuenctid).
- 3.93 Mae hyn yn awgrymu fod rhai penderfyniadau, ar lefel leol, yn cael eu cymryd mewn ffordd fwy *ad hoc* neu ymatebol. Er enghraifft, mewn un awdurdod lleol fe nodwyd fod enghreifftiau difrifol o droseddu ac anhrefn wedi peri i'r awdurdod lleol ddarparu swm ychwanegol o

£100,000 y flwyddyn ar gyfer gwaith ieuenctid a bod pwyllgor craffu'r cyngor wedi gwneud addewid y:

'Bydd gweithiwr ieuenctid ymhob ardal' (Prif Swyddog Ieuenctid).

- 3.94 Mae'r dyfyniad canlynol o grwpiau ffocws yn dangos pa mor bwysig y mae mapio a datblygu darpariaeth yn seiliedig ar anghenion lleol yn cael ei ystyried,

'Mae astudiaethau a data diweddar yn dangos fod mwy o bobl ifanc yn y sir yn cael eu heffeithio gan galedi a phlant yn byw mewn tlodi. Yn anffodus, arweiniodd hynny at fwy o alw am wasanaethau ar adeg pan mae cyllidebau'n cael eu torri, gan roi pwysau ar lawer o wasanaethau i dargedu eu hymdrechion at y rhai mwyaf anghenus neu godi trothwyon cymhwysedd. Bydd y Grŵp Llywio CCG yn mynd ati i geisio sicrhau cefnogaeth ychwanegol i gynorthwyo gyda'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn y Strategaeth Mynd i'r Afael â Thlodi a gyhoeddwyd yn ddiweddar' (Prif Swyddog Ieuenctid).

- 3.95 Gellir gweld o'r enghraifft hon fod awdurdodau lleol dan bwysau; mae cymunedau yn wynebu mwy o anawsterau ac mae'r grŵp cynllunio cyffredinol yn cydnabod yn agored fod angen targedu cynyddol o'r herwydd. Yn lleol, gall hyn fod yn enghraifft o bwysau ar y gwasanaeth ieuenctid i addasu i anghenion penodol yn hytrach na darparu gwasanaeth holistaidd, cyffredinol sydd yr un mor hygyrch i bob person ifanc yn yr ardal.

- 3.96 Clywsom yn gyson gan bobl yn ein grwpiau ffocws y gall amcanion a gofynion arian grant gyfyngu ar benderfyniadau gwario. Hefyd, gall lywio gwasanaethau tuag at waith sydd wedi'i dargedu fwy, er enghraifft:

'mae grantiau'n gallu dylanwadu ar sut mae arian yn cael ei ddefnyddio, er enghraifft, maes y sector gwirfoddol, maes y

Gymraeg a'r maes llesiant, mae clustnodi arian ar gyfer y sector gwirfoddol yn ddefnyddiol' (Prif Swyddog Ieuenctid).

- 3.97 Mewn un gwasanaeth dywedwyd fod 75 y cant o'r gyllideb yn dod o grantiau, 'mae wyth prif faes cyllido, y rhan fwyaf ohono'n Lywodraeth Cymru, yna peth Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder'. O ran y penderfyniadau a wneir am y grantiau hyn a'r gwaith sy'n digwydd, dywedwyd 'fod gan bob grant delerau ac amodau, erbyn hyn mae Teuluoedd yn Gyntaf, Gwaith Ieuenctid mewn Ysgolion, y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn talu am 16 a mwy o staff, ac mae hyn yn dod gyda diwydiant o fonitro ac adrodd, a chaiff llawer o ddata ei gynhyrchu i gyfiawnhau gwariant' (Prif Swyddog Ieuenctid).
- 3.98 Mewn un ardal awdurdod lleol, soniodd Prif Swyddog Ieuenctid am sut roedd y gwasanaeth ieuenctid statudol wedi datblygu strategaeth ddeublyg. Dywedodd y Prif Swyddog Ieuenctid fod yna ymrwymiad gwirioneddol i waith ieuenctid cyffredinol mewn cymunedau oherwydd eu bod yn credu fod pobl ifanc angen gwasanaethau yn y gymuned a'u bod yn ffordd effeithiol o ymyrryd yn gynnar. Roedd y Prif Swyddog Ieuenctid wedi cyflwyno dadl o blaid gwerth ataliol gwaith cyffredinol ac roedd yr awdurdod lleol wedi parhau i fuddsoddi yn y ddarpariaeth honno. Ar yr un pryd, roedd y Prif Swyddog Ieuenctid mewn sefyllfa i chwilio am arian ychwanegol i allu ymateb i anghenion mwy difrifol pobl ifanc yn yr ardal trwy fwy o waith wedi'i dargedu. Dywedodd Prif Swyddog Ieuenctid arall 'fod gan yr awdurdod lleol gynnig cymunedol a darpariaeth gymunedol, ond rydym yn gwario llawer o'r incwm ar waith wedi'i dargedu'.
- 3.99 Tynnodd y Prif Swyddogion Ieuenctid a gymerodd ran yn ein grwpiau ffocws sylw at y ffaith fod pwysau ariannol hefyd yn dylanwadu ar benderfyniadau, a dywedodd un person 'oherwydd pwysau ariannol, rydym wrthi'n gyson yn cymryd oddi wrth Peter i dalu Paul' (Prif Swyddog Ieuenctid). Mae'r datganiad hwn yn dystiolaeth fod pwysau

cyllidebol tymor byr yn cyfyngu ar y posibilrwydd o gynllunio'r gwaith dros yr hirdymor.

Llywodraethiant yn y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol

3.100 O ran y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol, mae elusennau yn atebol i'r Comisiwn Elusennau ar gyfer Lloegr a Chymru 2023, ac mae eu canllawiau'n awgrymu y dylai ymddiriedolwyr mudiadau elusennol gael eu harwain gan rai egwyddorion wrth wneud penderfyniadau. Nid oes unrhyw un system lywodraethu, ac mae mudiadau a chanddynt lywodraethiant gadarn eu harwain gan ddeddfau a rheoliadau sy'n diffinio sut ddylai byrddau a rheolwyr weithredu (Chartered Governance Institute UK and Ireland, 2024).

3.101 Dywedodd pobl mewn grŵp ffocws sioe benffordd fod eu trefniadau llywodraethu mewnol yn eu gwneud yn fwy cynaliadwy, ac fe glywsom hefyd yn ein grwpiau ffocws sioeau penffordd y gall partneriaethau, consortia, a chynghorau gwirfoddol sirol gweithgar gefnogi llywodraethiant da yn y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol. Wrth edrych ar lywodraethiant ar lefel leol, ar draws mudiadau, fe nodwyd fod potensial i gydweithio wrth godi arian:

'Hoffwn weld ceisiadau gan gonsortia. Mae mudiadau sy'n cyflogi staff amser llawn yn cael yr arian oherwydd bod ganddynt weithwyr amser llawn yn gweithio ar y ceisiadau' (Person mewn grŵp ffocws sioe benffordd).

3.102 Mae llywodraethiant mudiadau gwaith ieuenctid sector gwirfoddol yn dibynnu ar statws cyfreithiol y mudiadau unigol hynny ac, o'r herwydd, beth yw eu cyfansoddiad: mae enghreifftiau'n cynnwys cwmnïau cyfyngedig trwy warant yn ogystal â bod yn elusen gofrestredig. Gallai elusen gofrestredig olygu: bod yn elusen gofrestredig yn unig; menter gymdeithasol; cwmni buddiant cymunedol. Mae mudiadau o'r fath yn gallu cael eu goruchwylio gan Bwyllgorau Gweithredol neu Reoli, yn cynnwys Cyfarwyddwyr etholedig a/neu Ymddiriedolwyr. Mae'r un

Gyfarwyddwyr a/neu Ymddiriedolwyr hynny'n gyfrifol am y ffordd y caiff y mudiadau eu rhedeg yn gyffredinol, ond os/pan mae staff mewn swyddi mae Cyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr yn darparu cefnogaeth pan maen nhw'n gallu. Fodd bynnag, byddent i bob pwrpas yn gadael materion ymarferol i'r staff hynny i ddefnyddio sgiliau a gwybodaeth i geisio sicrhau cyllid, gan gynnwys sut ac o ble y deuir o hyd iddo a sut mae'n cael ei ddefnyddio. Mewn rhai mudiadau, efallai y byddai Ymddiriedolwyr yn defnyddio eu profiad i helpu ymchwilio a/neu gyflwyno ceisiadau ar ran eu priod fudiadau.

3.103 Mae Paragraff 3.105 yn cynnwys dyfyniad gan ymddiriedolydd sy'n dangos sut mae un mudiad wedi gorfod newid ac addasu, dros gyfnod o amser, o fod ar gyfer pobl ifanc yn unig ac esblygu'n wasanaeth cymunedol mwy generig i sicrhau ei fod yn parhau'n gynaliadwy. Daeth ein grwpiau ffocws sioeau penffordd o hyd i arfer da mewn mudiadau, lle mewn un sefyllfa, yr oedd mudiad sector gwirfoddol yn cadw cofrestr o geisiadau am arian a'r diweddaraf amdanynt. Adeg cynnal ein grwpiau ffocws sioeau penffordd roedd gan y mudiad 50 o geisiadau am arian ar waith, ac roedd y rheolydd yn cadw cofrestr o'r ceisiadau hynny ac yn defnyddio system goleuadau traffig i ddangos beth oedd eu sefyllfa. Roedd y gofrestr hon yn agwedd bwysig o adroddiadau misol y rheolydd i'r pwyllgor rheoli. Roedd cryn amrywiaeth yn y ceisiadau ariannol a wnaed, am arian refeniw a chyfalaf, gan gynnwys ceisiadau am brosiectau llesiant, am brosiectau bwyd a hylendid ynghyd â cheisiadau cyfalaf ar gyfer gwaith addasu a gwelliannau i'r adeilad. Ni wnaed ceisiadau am arian heb gymeradwyaeth y pwyllgor rheoli.

3.104 Er mwyn hybu llywodraethiant trwy wneud penderfyniadau cadarn, fe nodwyd fod angen i fudiadau fod wedi esblygu, a dywedodd un person mewn grŵp ffocws sioe benffordd sector gwirfoddol:

'27 mlynedd yn ôl...cefais y moethusrwydd o fod yn ymddiriedolydd 27 mlynedd yn ôl, sefydlwyd y prosiect yn benodol ar gyfer pobl

ifanc', ond bu'n rhaid i'r mudiad addasu, ac erbyn 'Rydym wedi gorfod dod yn ddarpariaeth gymunedol sy'n cynnig rhywbeth i bawb er mwyn ceisio goroesi. Rydym wedi gorfod mynd allan a gwneud blynyddoedd cynnar a gofal plant er mwyn denu'r cyllid i allu cadw cydlynnydd ieuencid a chwarae amser llawn gwych yn eu swydd (Person mewn grŵp ffocws sioe benffordd).

3.105 Mae trefniadau lleol ar gyfer cynllunio, monitro, a gwerthuso yn amrywio; trafododd mudiadau sector gwirfoddol yn ein grwpiau ffocws sioeau penffordd sut maent yn gorfod cwblhau adroddiadau gwerthuso ar gyfer pwyllgorau rheoli a sefydliadau cyllido, ac roeddent yn cydnabod eu bod yn atebol i gymunedau lleol, gan gynnwys cynghorau cymuned ac awdurdodau lleol os ydynt yn cael arian gan awdurdodau lleol. Dangosodd ein hymchwil y gall hynny fod yn feichus, yn enwedig felly i fudiadau llai.

3.106 Yn un o'n grwpiau ffocws sioeau penffordd, dywedodd un person fod 'targedau cyllido a benderfynwyd ymlaen llaw yn dyddio' a'u bod yn gallu cyfyngu sut mae gweithwyr ieuencid yn gallu sicrhau bod eu harfer yn parhau i adlewyrchu profiadau pobl ifanc sy'n newid mor gyflym. Mae angen dibenion sefydliadol clir, defnyddiol ar gyfer llywodraethiant da. Mae strwythurau a systemau llywodraethu sefydliad yn datblygu targedau. Mae'r amserlenni ar gyfer cynnig am arian a chael cadarnhad yn gallu golygu fod anghenion pobl ifanc wedi symud ymlaen yn gyflymach, ac y gall yr arfer sy'n dilyn fod yn anelu at dargedau sydd wedi dyddio. Mae'n bwysig nodi, er hynny, y gall y targedau penodol hyn fod yn werthfawr ac ystyrlon ynddynt eu hunain. Nodwyd yn y drafodaeth ddilynol y dylai cyrff cyllido fabwysiadu ymagwedd gymesur ar gyfer eu prosesau gwneud ceisiadau, cyflwyno adroddiadau a'r effeithiau a ddisgwyliant. Awgrymodd uwch reolydd Dangosyddion Perfformiad Allweddol clir a chyson fyddai'n helpu diffinio gwaith ieuencid a'i bwrpas. Nodwyd yn aml fod anghysondeb yn y gofynion adrodd yn wendid, ac mewn rhai

sefyllfaoedd dywedwyd fod y gofynion adrodd yn anghymesur â maint y dyfarniad ariannol sy'n cael ei wneud.

- 3.107 Wrth edrych ar drefniadau llywodraethu mewnol mudiad, fe nodwyd yn ein grwpiau ffocws sioeau penffordd fod gan fudiadau gwaith ieuencid gwirfoddol drefniadau gwarantu ansawdd mewnol cadarn ar waith:

'Gallwn amddiffyn ein harferion mewnol. Faint o bobl sydd gennym mewn gwahanol leoedd ac arfer myfyrgar ac ôl-drafodaethau a rhyw bethau felly. Rydyn ni'n gwneud gymaint fyth ag y gallwn' (Person mewn grŵp ffocws sioe benffordd).

- 3.108 Soniodd un mudiad am ddatblygu system o fonitro effeithiau gwaith ieuencid:

'Felly fe fydden ni'n ddarparu llawer o ddata gan ddefnyddio pethau fel Warwick and Edinburgh (Graddfa Llesiant Meddyliol) ar gyfer y pellter a deithiwyd, ond fe welsom ar ôl pum mlynedd na fyddai'r awdurdod lleol yn derbyn hynny gan nad ydynt yn fodlon derbyn llais y trydydd sector yn ymchwilio ei hun' (Person mewn grŵp ffocws sioe benffordd).

Gwneud penderfyniadau ar y cyd

- 3.109 Roedd grwpiau ffocws y sector gwirfoddol yn sôn am ddiffyg tryloywder tybiedig yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn dyrannu cyllid. Dywedodd un ymatebydd:

'mae'n sefyllfa ni a nhw, mae'n broses gudd iawn' a 'ble y mae eu rhesymwaith' am y penderfyniadau a wneir?

- 3.110 Caiff y dyfyniad hwn ei gadarnhau gan sylwadau gan berson mewn sioe benffordd ar dryloywder ac amserlenni'r broses gwneud penderfyniadau, a bod y fiwrocratiaeth yn yr haenau o reolaeth ac atebolrwydd yn creu syrthni yn y broses gyllido. Fe nodwyd:

'Mae'n fater o dryloywder ac mae'm ymwneud â'r bobl sy'n darparu'r wybodaeth, mae'n bwysig peidio anghofio hynny. Mae staff awdurdodau lleol yn cael eu gorychwylio, felly dyna ble mae'n rhaid mynd yn ôl iddo hefyd. Fely rwyf mor falch fod yr ymgynghoriad yma'n digwydd gan fod rhaid iddo fynd yn ôl i Lywodraeth Cymru sy'n gwneud y penderfyniadau, sy'n gosod yr amserlenni afrealistig. [...] Rwyf wedi bod yn rhan o gontract enfawr gyda fy swydd, ac roedd mor afrealistig o'r cychwyn cyntaf ac fe ddywedson ni wrth y swyddogion polisi nad oedd yn mynd i weithio. Wnaethon nhw ddim gwrando. Ac yn rhyfedd iawn, wnaeth e ddim gan ei fod mor afrealistig. Yr amserlen a nifer y bobl..... Felly mae'n rhaid iddo fynd i fyny'r gadwyn yn ôl (Person mewn grŵp ffocws sioe benffordd).

3.111 Mae'r dyfyniad uchod yn cyfeirio at Lywodraeth Cymru ac at gyllido, ond mae gan awdurdodau lleol eu hierarchaethau a'u lefelau craffu eu hunain sy'n effeithio ar benderfyniadau. Pan edrychwn ar hyn ynghyd â data arall ar amseriad penderfyniadau cyllido a rhyddhau arian, gall hynny greu anawsterau a gwasgfeydd o ran llif arian i rai mudiadau.

3.112 Hefyd, cyfeiriwyd at dryloywder'r broses gwneud penderfyniadau a'r defnydd o wybodaeth gefndir yn hytrach na data yn unig mewn grŵp ffocws sioe benffordd:

'Rydym yn llenwi llwyth o ffurflenni gwerthuso, pellteroedd a deithiwyd, yr holl bethau hynny, flwyddyn ar ôl blwyddyn ar ôl blwyddyn? Rwyf yn eu danfon, ond dydw i ddim yn gweld unrhyw wahaniaeth o gwbl. I ble mae'r holl stwff yn mynd, pwy sy'n edrych arno, pa newidiadau sy'n cael eu gwneud, gallwn ei wneud at ein defnydd ein hunain, ond o ran rhyngweithiad polisi beth sy'n digwydd iddoi? Pam ydyn ni'n ei wneud os nad yw'n creu unrhyw newid?' (Person mewn grŵp ffocws sioe benffordd)

- 3.113 Mewn rhai awdurdodau lleol, fe welsom fod cydweithio yn golygu rhywbeth; mewn rhai eraill, mae'n ymddangos fod cydweithio'n gwanhau pan mae arian yn prinhaus. Gwnaeth un Prif Swyddog leuenctid y pwynt fod colli cysylltiadau gyda'r gymuned yn 'risg i golli gwybodaeth am y farchnad' a chadw cysylltiad â thueddiadau a themâu cyfredol yn lleol, mae hyn yn dangos fod gwybodaeth a chydweithio lleol yn bwysig er mwyn darparu tystiolaeth dros wneud pendefyniadau cadarn wrth gynllunio rhaglenni gwaith.
- 3.114 Mewn un ardal, roedd y Prif Swyddog leuenctid yn awyddus i gydweithio gyda darparwyr lleol ac amlinellodd yr ymagwedd strategol a ddefnyddiwyd yn lleol:

'Rwyf yn cadeirio partneriaeth aml-asiantaethol [Name of Group] – mae'n agored i bob mudiad sy'n gweithio gyda phobl ifanc, ac mae'r ffocws ar y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuenctid. Rydym yn mynd ati i chwilio am unrhyw fudiad sy'n gweithio gyda phobl ifanc i fod yn rhan o'r grŵp hwn. Mae nifer o fforymau ymarferwyr yn eistedd o dan y grŵp hwn. Rydym hefyd yn rhedeg Hwb Partneriaeth leuenctid misol ar gyfer pob mudiad sy'n cefnogi pobl ifanc er mwyn rhwydweithio a rhannu arfer da. Mae cyd-gesiadau cyllid a gweithgarwch yn dod allan o'r grŵp hwn' (Prif Swyddog leuenctid).

- 3.115 Disgrifiodd dau Brif Swyddog leuenctid eu harfer o gyfrannu at drefniadau cynllunio lleol ac at y strwythurau a systemau llywodraethiant ac atebolrwydd clir. Mae Grŵp Llywio aml-asiantaethol y CCG yn gyfrifol am weinyddu'r Grant Plant a Chymunedau (CCG), ac:

'Mae Grŵp Llywio'r CCG yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn, ac mae rhaglen ein cyfarfodydd yn adlewyrchu rhaglen fonitro Llywodraeth Cymru erbyn hyn. Mae cynrychiolydd y CCG yn mynychu cyfarfodydd grŵp yr HSG (Grant Cymorth Tai), a vice versa, i

sicrhau synergedd ar draws y ffrydiau cyllido a gofalu y gwneir y defnydd gorau o bob cyfle, gan gynnwys cyd-gynhyrchu. Rydym eisoes yn gweld buddion y cydweithio agosach hwn, ac mae cyfleoedd cyd-gomisiynu yn cyflwyno eu hunain yn naturiol ac yn caniatáu i bawb perthnasol gryfhau effaith y gwaith trwy gyfuno ffrydiau cyllido addas er budd pobl leol' (Prif Swyddog Ieuenctid).

- 3.116 Mae'r dyfyniad hwn yn dangos sut, ar lefel awdurdod lleol, y caiff y gwaith o gynllunio ystod o wasanaethau ei wneud trwy gydweithio, gyda'r bwriad o gynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- 3.117 Fe nodwyd yn ein grwpiau ffocws sioeau penffordd sector gwirfoddol fod yna weithiau gystadlu am gyllid, ond y byddai model rheoli mwy effeithiol yn datblygu prosiectau cydweithiol, yn hytrach na'r sefyllfa bresennol, sydd yn ôl y sôn yn annog cystadlu:
- 'Pan mae arian ar gael, mae pawb yn ymladd amdano. Mae'n rhaid inni. Dyna'r pwynt. Rwy'n gwybod ein bod yn gwneud ac rwy'n deall yn iawn pam ddigwyddodd, ond eto win cyfrifoldeb yw cydweithio. Yr hyn sy'n digwydd ar yr adegau hynny a'r ddelwedd y byddwn i'n ei defnyddio yw hyn, Fe gymera i'r asgwrn hwn. O fwyd. Ie, rwy'n mynd i'w daflu. Draw yn y canol. Pwy all ei fachu gyntaf? Dyna sy'n digwydd ar yr adegau hynny. A'r elusennau mwy a'r grwpiau ieuenctid ac ati. Maen nhw'n hwfro i fyny gymaint ag y gallant, ac mae'n rhaid iddynt, a phe bawn i yn eu sefyllfa nhw fe fyddwn i'n gwneud yr un peth. Ond dydw i ddim yn y sefyllfa honno mewn mudiad canolig ei faint' (Person mewn grŵp ffocws sioe benffordd).
- 3.118 Ar ôl clywed y gall cyfleoedd cyllido greu awyrgylch gystadleuol, mae yn wir fod cyfleoedd yn cael eu darparu i ddatblygu prosiectau cydweithiol yn y Grant Mudiadau Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol Strategol a'r Grant Cefnogi Ieuenctid.
- 3.119 Fe nodwyd yn ystod grwpiau ffocws sioeau penffordd fod cefnogaeth leol i fudiadau sector gwaith ieuenctid gwirfoddol gan Gynghorau

Gwirfoddol Sirol yn gallu helpu cefnogi mudiadau i aros yn gynaliadwy. Dywedodd un person:

'Diolch i'r (Cyngor Gwirfoddol Sirol) a dydw i ddim eisiau creu embaras i neb, dydw i ddim eisiau creu embaras i neb, ond oni bai am y staff, eu rôl a pha mor dda yw'r tîm CVC am godi llais dros y trydydd sector ac elusennau, fydden ni ddim ble rydyn ni ar hyn o bryd. Wyddoch chi, ac rydyn ni'n dal yma diolch i'ch gwaith caled chi' (Person mewn grŵp ffocws sioe benffordd).

- 3.120 Mae'n amlwg o'r grwpiau ffocws sioeau penffordd fod gan fudiadau sector gwaith ieuenctid gwirfoddol drefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Mae cydweithio rhwng y sectorau gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol yn gallu cryfhau trefniadau llywodraethu, gan sicrhau gwell atebolrwydd trwy wneud y broses gwneud penderfyniadau yn fwy tryloyw.

Lefel ymglymiad pobl ifanc

- 3.121 Mae enghreifftiau o bobl ifanc yn cyfrannu at y broses lywodraethu. Fe nodwyd mewn un cyfweiliad:

'Rydym yn cynnal ymgynghoriad blynyddol gyda'r holl bobl ifanc ar draws y fwrdeistref. Rydym hefyd yn cynnal ymgynghoriadau unigol ar gyfer pob adran/maes prosiect yn y gwasanaeth trwy gydol y flwyddyn i helpu gwirio ein bod yn diwallu'r angen a gwneud newidiadau os nad ydym e.e. yn dilyn ymgynghoriad diweddar, cafodd y gwasanaeth ei ad-drefnu fel bod yr holl staff amser llawn yn gorfod gweithio isafswm o ddwy noson yr wythnos, i ddiwallu'r anghenion y rhoddodd pobl ifanc wybod inni amdanynt' (Prif Swyddog Ieuenctid).

3.122 Mae'n ymddangos fod ymglymiad gweithredol pobl ifanc yn amrywio, mae pobl ifanc yn cyfrannu'n rheolaidd at nodi ymha weithgareddau yr hoffent gymryd rhan. Mewn rhai mudiadau mae pobl ifanc yn cyfrannu at adnabod eu hanghenion ac yn gweithio o fewn strwythurau clir i helpu cynllunio, monitro, a gwerthuso'r gwaith, ac amlygir hynny yn y dyfyniad canlynol gan Brif Swyddog Ieuenctid:

'Yn ogystal â'r ymgynghoriad blynyddol, mae pobl ifanc yn rhan o gynllunio a chyflawni rhaglenni yn holl brosiectau a meysydd y Gwasanaeth Ieuenctid e.e. clybiau Ieuenctid, tîm ôl-16, tîm 11-16, Adran Addysg, Datgysylltiedig, tîm YEP. Mae gennym grŵp ymgynghorol o bobl ifanc sy'n penodi'r holl staff newydd a helpu blaenoriaethu ein gwaith. Mae pobl ifanc yn gwerthuso'r rhaglenni a'r sesiynau, sy'n bwydo'r broses ail-gomisiynu' (Prif Swyddog Ieuenctid).

3.123 Mae ymatebion i'n harolwg o fudiadau sector gwirfoddol yn dangos fod cael pobl ifanc i helpu gyda chodi arian yn cael ei werthfawrogi. Mae mudiadau yn gwerthfawrogi cyllidwyr sy'n annog pobl ifanc i gymryd rhan yn y prosesau codi arian, gan ddibynnu ar natur prosesau'r sefydliad cyllido. Er enghraifft, mae'n rhesymol disgwyl, i rai pobl ifanc, y byddai creu fideo byr yn ffordd fwy cynhwysol o gynnig am arian yn hytrach na phroses gwneud cais hir a chymhleth.

3.124 Mae enghreifftiau eraill lle y mae pobl ifanc ac aelodau'r gymuned yn gallu herio penderfyniadau corfforaethol. Soniodd un Prif Swyddog Ieuenctid am enghraifft wrth ein hymchwilyr lle, wrth wynebu'r bwriad i gau clwb Ieuenctid mewn ardal wledig, y trefnodd y gymuned leol ei hun i wrthwynebu'r cau, gan drefnu deiseb yn cynnwys dros 400 o lofnodion a gyflwynwyd i'r awdurdod ac arhosodd y clwb ar agor.

3.125 Clywsom am enghreifftiau lle y mae pobl ifanc yn chwarae rhan amlwg yn y penderfyniadau ar lefelau gwahanol mewn mudiad. Mae'r

Strategaeth Gwaith Ieuenctid i Gymru (The Youth Work Strategy for Wales english gov.wales) yn nodi y dylai pobl ifanc:

‘...gyfrannu at ddatblygu penderfyniadau sy’n eu heffeithio, a chael mynediad at weithdrefnau sy’n eu galluogi i gwestiynu a herio gwneuthurwyr penderfyniadau; mae angen partneriaethau ystyrlon gyda phobl ifanc i wneud hyn yn realiti.’ (Llywodraeth Cymru, 2019, t.12).

- 3.126 Roedd tystiolaeth o’n cyfweiliadau gyda’r sector statudol yn dangos yn gyson fod pobl ifanc yn cyfrannu’n rheolaidd at brosesau gwneud penderfyniadau mewn cyd-destunau lleol, yn aml trwy gyfrannu at raglenni gwaith ac adeg penodi gweithwyr ieuenctid. Gwelsom lai o enghreifftiau o bobl ifanc yn chwarae rhan amlwg yn y broses gwneud penderfyniadau ar lefel fwy strategol, er bod enghreifftiau o arfer da. Cafwyd enghreifftiau hefyd o ble yr oedd pobl ifanc yn dal rheolwyr y gwasanaeth ieuenctid yn atebol, a dywedodd un Prif Swyddog Ieuenctid eu bod yn:

‘cynnal cyfarfodydd ar draws y fwrdeistref. Rwyf yn wynebu ystafell lawn o 100 o bobl ifanc lle rwyf yn cael yn fy nal yn atebol am benderfyniadau rwyf yn eu gwneud gan gadeirydd y cyngor ieuenctid lleol’ (Prif Swyddog Ieuenctid).

- 3.127 Gwelsom enghreifftiau o lle yr ymgynghorir â phobl ifanc am y gwaith ieuenctid maen nhw’n rhan ohono, er enghraifft, wrth gynllunio rhaglenni a nodi beth maen nhw am ei wneud dros y cyfnod amser nesaf. Fodd bynnag, ymddengys o’n hymchwil fod arfer yn amrywio ledled Cymru ac mae’n awgrymu y gall fod cyfleoedd yn cael eu colli i farnau pobl ifanc gael eu clywed a gweithredu arnynt yn fwy cyson ar lefel leol a chenedlaethol, yn unol â’r safonau cyfranogi cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc (Cafcass Cymru, 2018: <https://www.gov.wales/children-and-young-peoples-national-participation-standards>).

4. Casgliadau

4.1 Nod cyffredinol yr ymchwil hwn oedd adolygu cyllido gwaith ieuenctid ar draws Cymru yn y sectorau gwaith ieuenctid gwirfoddol a statudol er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu model cyllido cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mabwysiadwyd ymagwedd dulliau cymysg yn yr astudiaeth yn unol ag ymagweddau tebyg eraill a nodwyd yn yr REA. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r dystiolaeth a gasglwyd oedd yn rhoi sylw i bedwar prif nod yr ymchwil sef:

- adolygu'r lefelau cyllido presennol i gael trosolwg o incwm a gwariant ac ystyriaeth o gynaliadwyedd ffynonellau cyllid
- cynnal adolygiad o'r prosesau cyllido gan gynnwys y rhwystrau wrth geisio dod o hyd i gyllid
- dadansoddiad o sut mae arian yn cael ei wario
- ac, adolygiad o lywodraethiant mudiadau h.y, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ar gyllido a gwariant a sut mae pobl ifanc yn cyfrannu at y penderfyniadau.

4.2 Caiff y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer pob un o'r nodau hyn ei chrynhoi yma. Yn gyntaf, adolygu'r lefelau cyllido presennol a chynnig trosolwg o incwm a gwariant ac ystyriaeth i gynaliadwyedd y ffynonellau cyllido. Mae'r sectorau gwaith ieuenctid gwirfoddol a statudol wedi profi gostyngiad cyffredinol yn eu cyllid mewn termau real. Mae cyfran yr incwm o ffynonellau gwahanol wedi amrywio, sy'n dangos diffyg sefydlogrwydd i fudiadau gwirfoddol dros gyfnod o dair blynedd. Mae'n anochel y bydd nifer ac amrywiaeth y ffynonellau cyllido ar gyfer y mudiadau sector gwirfoddol yn golygu fod rhaid treulio mwy o amser ar wneud ceisiadau a gofynion adrodd. Roedd llai na hanner y sector gwirfoddol a ymatebodd i'r holiadur yn barnu fod lefelau cyllido yn ddigonol i gynnal lefelau presennol eu darpariaeth, ac yn y tymor hir nid oedd y rhan fwyaf yn hyderus o gwbl y byddent yn gallu cynnal eu gwasanaethau. Yn aml iawn, mae'r nifer

arwyddocaol o ffrydiau cyllido gwahanol a ddefnyddir gan y sector gwirfoddol yn arwain at fodel cyllido cymhleth all fod yn anodd ei gynnal yn y tymor hir.

- 4.3 Yn ail, adolygiad o'r prosesau cyllido gan gynnwys y rhwystrau wrth geisio dod o hyd i gyllid. Gwelwyd fod rhwystrau arwyddocaol wrth geisio sicrhau cyllid digonol ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae'n ymddangos fod llawer o fudiadau wrthi'n ddidiwedd yn cynnig am y set nesaf o gyllid i'w cadw i fynd. Mae hynny oherwydd natur dymor byr y cyllid, ac mae'r posibilrwydd o allu cynnig am arian dros gyfnod hirach na thair blynedd yn fach iawn. Mae'r amser y mae'n rhaid i fudiadau ei fuddsoddi mewn ceisiadau grant (na fyddant o reidrwydd yn llwyddo) yn dubyntu'n rhy aml ar bobl yn gwneud gwaith ychwanegol yn eu hamser eu hunain. Gyda'i gilydd mae hyn yn arwain at ansefydlogi gwasanaethau gwaith ieuenctid yn y sector. Mae rhai mudiadau'n gweithio i liniaru'r materion hyn trwy amrywio eu ffrydiau cyllido, gweithio'n uniongyrchol gyda chyllidwyr, a lle y mae hynny'n bosib, gweithio gyda mudiadau, yn bennaf felly CWWYS, yn y sector gwaith ieuenctid. Ceir cydweithio hefyd ar draws sectorau eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc er mwyn creu modelau cyllido cynhaliol sy'n llesol i bawb perthnasol. Clywsom nad yw'r berthynas rhwng y sector gwirfoddol a statudol bob tro'n llesol i'r ddwy ochr mewn rhai rhannau o Gymru. Gallai hyrwyddo'r cyfleoedd cyllido mewn ffordd amserol a sicrhau tryloywder trwy'r sector yn y broses dyfarnu grantiau helpu datblygu'r perthnasoedd hyn mewn ffordd gadarnhaol.
- 4.4 Yn drydydd, mae patrymau gwariant yn y sector gwirfoddol a'r sector statudol yn dangos patrwm tebyg iawn. Nid oedd y rhan fwyaf o'r arian wrth gefn a welsom yn y sector gwirfoddol wedi cael ei ddefnyddio. Mae'r mudiadau sector gwirfoddol a gynrychiolir yn yr astudiaeth hon yn dangos fod eu hincwm yn lleihau yn gyffredinol. Efallai y bydd rhai mudiadau yn cyrraedd pwynt tyngedfennol lle y

mae eu hincwm yn llai na'u gwariant, a gallem weld mwy o ddefnydd o arian wrth gefn o'r herwydd.

- 4.5 Yn bedwerydd, adolygiad o lywodraethiant mudiadau h.y, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ar gyllido a gwariant a sut mae pobl ifanc yn cyfrannu at y penderfyniadau. Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau'n dangos fod gwneud penderfyniadau'n lleol yn arwain at amrywiaeth sylweddol iawn yn y penderfyniadau cyllido a bod ystod eang o ffactorau'n gallu dylanwadu ar y penderfyniadau hyn, gan gynnwys yr angen i ymateb i strategaethau lleol, anghenion yn newid, a gofynion arian grant. Gall gofynion llywodraethiant fod yn feichus i fudiadau ac mae'r lefelau gwahanol o ddisgwyliadau a roddir ar fudiadau gan gyllidwyr gwahanol yn gallu creu cymhlethdod. Mae ymglymiad pobl ifanc mewn llywodraethiant a gwneud penderfyniadau yn rhan o'r broses mewn mudiadau gwaith ieuenctid, ond mae lefel yr ymglymiad yn amrywio.
- 4.6 Mae'r sectorau gwaith ieuenctid gwirfoddol a statudol yng Nghymru yn ceisio cefnogi ein pobl ifanc yn effeithiol, diwallu eu hanghenion a'u galluogi i gyflawni eu potensial fel y genhedlaeth nesaf o oedolion ifanc yng Nghymru. Mae ein hymchwil yn dangos fod y sector yn ceisio galluogi'r gwaith hwn gyda llai o arian a rhwystrau nid ansylweddol wrth gael gafael ar y cyllid hwnnw a gofynion adrodd sy'n deillio o lwyddo i sicrhau cyllid. Gellir defnyddio'r adroddiadau sydd eu hangen gan gyllidwyr gwahanol gwaith ieuenctid yng Nghymru i ddangos effaith ac effeithiolrwydd gwaith ieuenctid, ond nid yw'r gofynion adrodd yn gyson ar draws y sector, sydd felly'n gwanhau effaith gyffredinol yr adroddiadau (trowch at yr adran ar gyfyngiadau ac argymhellion).
- 4.7 Mae'r gostyngiad a gofnodwn yn nifer y gwirfoddolwyr ar draws y sector yn debygol o barhau, oherwydd gan fod llai o arian ar gael o nifer cynyddol o ffynonellau, gall y sector gwirfoddol ei chael yn anodd

i gynnal eu seilwaith ac o'r herwydd bydd llai o adnoddau ar gael i gefnogi gwirfoddolwyr.

- 4.8 Mae potensial i gynnal dadansoddiad cost a budd o'r sector gwaith ieuenctid yng Nghymru, a byddai hynny'n adeiladu ar syniadau economaidd cydnabyddedig ac arfer gorau cyfredol o'r sector gwaith ieuenctid ledled gwledydd Prydain. Mae tystiolaeth o ddadansoddiad cost a budd yn galluogi cymhariaeth o'r costau disgwylidig gyda'r buddion disgwylidig (gan gynnwys e.e. iechyd, effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol) gwahanol ymagweddau at waith ieuenctid. Byddai'r ddealltwriaeth ehangach hon yn galluogi penderfyniadau mwy gwybodus. Er enghraifft, gall dadansoddiad cost a budd ddarparu data hefyd i helpu rhagfynegi canlyniadau dewisiadau cyllido a'u heffeithiau posib i bobl ifanc.
- 4.9 Hoffem gydnabod cefnogaeth ac anogaeth y mudiadau a'r unigolion a gymerodd ran yn yr ymchwil hwn a chynnig gair o ddiolch. Rydym wedi ymgysylltu â'r sector ar adeg brysur ond wedi llwyddo i gasglu data pwysig a pherthnasol o gyfweiliadau a grwpiau ffocws, trwy ein holiadur, a data o'r lenyddiaeth.

5. Argymhellion

- 5.1 Argymhelliad 1: Dangosodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i waith ieuenctid yn y blynyddoedd diwethaf. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill barhau i hyrwyddo a datblygu model cynaliadwy a theg o waith ieuenctid yng Nghymru.
- 5.2 Argymhelliad 2: Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill ystyried cynaliadwyedd ffrydiau cyllido ar gyfer y sector gwaith ieuenctid a datblygu strategaethau a mecanweithiau i sicrhau y caiff cyllid ei ddosbarthu'n deg.
- 5.3 Argymhelliad 3: Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill adnabod ffyrdd o ysgafnhau "baich" biwrocraidd y broses gyllido ar gyfer mudiadau gwaith ieuenctid yn y sectorau gwirfoddol a statudol, gan gynnwys mynediad, gwneud cais ac adrodd.
- 5.4 Argymhelliad 4: Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried mynd i'r afael â chyfyngiadau'r data sydd ar gael o ran safoni wrth adrodd ar gyfer cwestiynau archwilio blynyddol y sector statudol, ynghyd â ffyrdd o gasglu data cyfwerth o'r sector gwirfoddol. Efallai y bydd angen darparu cymorth i fudiadau eu cwblhau.
- 5.5 Argymhelliad 5: Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill ddarparu hyfforddiant blynyddol ar ysgrifennu ceisiadau am grantiau a chodi arian er mwyn datblygu a hyrwyddo safonau normadol ar draws y sector gwaith ieuenctid.
- 5.6 Argymhelliad 6: Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru, y sector gwaith ieuenctid statudol, y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol a phartneriaid eraill ddatblygu gwell mecanweithiau ar gyfer rhannu atebolrwydd a thryloywder penderfyniadau cyllido, yn lleol, rhanbarthol ac ar draws Cymru, er mwyn sicrhau mynediad teg ac amserol at gyfleoedd cyllido.

- 5.7 Argymhelliad 7: Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru, y sector gwaith ieuenctid statudol, y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol a phartneriaid eraill adnabod a rhannu arfer gorau ar waith cydweithredol ar geisiadau am arian a grantiau i annog a chefnogi gwaith partneriaeth lleol, cenedlaethol a rhanbarthol.
- 5.8 Argymhelliad 8: Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill ystyried effaith amrywioldeb yn y penderfyniadau a wneir yn lleol (e.e. dyrannu cyllid RSG ymhob awdurdod lleol) ar y gobaith o sicrhau mynediad teg at waith ieuenctid i bobl ifanc Cymru.
- 5.9 Argymhelliad 9: Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru fel rhan o'i hymrwymiad i hyrwyddo mynediad at waith ieuenctid i bobl ifanc yng Nghymru ystyried neilltuo'r RSG er mwyn adnabod symiau enwol y dylid eu neilltuo i gefnogi gwaith ieuenctid yn ardal pob awdurdod lleol.
- 5.10 Argymhelliad 10: Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill barhau i ystyried cryfhau'r seiliau deddfwriaethol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru trwy fabwysiadu fframwaith statudol ar gyfer gwaith ieuenctid. Gallai hynny gynnwys sefydlu corff cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid allai fod yn gyfrifol am ddsbarthu cyllid i'r sector, cefnogi datblygu'r gweithlu a hyfforddiant a dylanwadu ar ddatblygiadau ar lefel gynllunio ranbarthol.
- 5.11 Argymhelliad 11: Argymhellwn y dylai'r sector gwaith ieuenctid barhau i ystyried cyfranogiad llawn ac ystyrlon pobl ifanc yn y broses gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, gan gynnwys ceisiadau grant, a gwariant, y gellid ei wneud trwy gymhwyso safonau cyfranogiad cenedlaethol plant a phobl ifanc (Cafcass Cymru, 2018: <https://www.gov.wales/children-and-young-peoples-national-participation-standards>).
- 5.12 Argymhelliad 12: Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru barhau gyda cham 3: Dadansoddiad cost budd sy'n adeiladu ar syniadau economaidd cydnabyddedig ac arfer gorau cyfredol o'r sector gwaith ieuenctid ledled gwledydd Prydain a thu hwnt. Darparu data i helpu

rhagfynegi canlyniadau penderfyniadau cyllido a'u heffeithiau posib i bobl ifanc.

Adran gyfeiriol

Ymchwil Arad. (2023) *Asesiad o werth economaidd Urdd Gobaith Cymru 2023*. Caerdydd: Ymchwil Arad.

Bacon, E. (2023) *Mapping and analysing the voluntary youth work sector in Wales*. Unpublished Mres Dissertation University of South Wales / Prifysgol De Cymru.

BERA. (2018) *Ethical Guidelines for Educational Research (4th Edition)*.

BERA. Available at <https://www.bera.ac.uk/resources/all-publications/resources-for-researchers> (Accessed September, 23).

Cafcass Cymru (2018) *Having a voice, having a choice: Children and young people's national participation standards*. Available at [Children and young people's national participation standards | GOV.WALES](#) (Accessed March, 2024).

Chartered Governance Institute UK and Ireland. (2024) *Discover Governance*. Available at [Discover Governance - What is governance? \(cgi.org.uk\)](#) (Accessed March 2024).

Charity Commission for England and Wales. (2023) *Trustees and Decision Making* Available at [It's your decision: charity trustees and decision making - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#) (Accessed November 2023).

Community Learning and Development Scotland (2019). *National Occupational Standards for Youth Work*. Available at [Youth Work National Occupational Standards 2019 Introduction \(cldstandardscouncil.org.uk\)](#) (Accessed November, 2022).

Creswell, J.W., and Creswell, J.D. (2018) *Research Design Qualitative, Quantitative & Mixed methods Approaches* (5th ed.). Los Angeles: SAGE.

Council for Wales of Voluntary Youth Services (2023). *About CWVYS*. Available at [About – CWVYS](#) (Accessed November 2023).

Education and Training Standards Committee. (2021) *The Context of youth work in Wales*. Available at [Policy-context-of-Youth-Work-in-Wales-0321.docx \(live.com\)](#) (Accessed November 2023).

CWVYS. (2024) *Strengthening the legislative framework for youth work in Wales – A Welsh Government update*. Available at: [Strengthening the legislative framework for youth work in Wales – A Welsh Government update. – CWVYS](#) (Accessed February 2024)

Estyn. (2021) *Inspecting the Value of Youth Work* Available at: [Inspecting the value of youth work| Estyn \(gov.wales\)](#) (Accessed October, 2023).

Misangyi, V.F., Greckhamer, T., Furnari, S., Fiss, P.C., Crilly, D., Aguilera, R. (2017) *Embracing causal complexity: The emergence of a neo-configurational perspective*. *Journal of Management*. 43, 255–282.

OECD (2020) *The Future of Regional Development and Public Investment in Wales, United Kingdom*, OECD Multi-level Governance Studies, OECD Publishing, Paris, <https://doi.org/10.1787/e6f5201d-en>.

Principal Youth Officers Group (2023) *Core Business Paper*. Available at [Download.aspx \(wlga.wales\)](#) (Accessed November 2023).

Quintana, R. (2023) *Embracing complexity in social science research*. *Qual Quant* 57, 15–38 <https://doi.org/10.1007/s11135-022-01349-1>

Rose, J. (2020) *Summary of national policy for the provision of services to young people in Wales 1844-2020*. Available at [Youth-Policy-in-Wales-2020-1.pdf \(youthworkwales.org.uk\)](#) (Accessed November, 2023).

Welsh Government. (2023) *Stats Wales: Youth Work*. Available at <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Youth-Service> (Accessed October, 2023).

Reference: Welsh Government. (2020) *Welsh Local Government Revenue Settlement 2020-2021. Background information for Standard Spending Assessments*. Available at: [green-book_0.pdf \(gov.wales\)](#) (Accessed March 2024).

Welsh Government. (2019) *Youth Work Strategy for Wales*. Available at The Youth Work Strategy for Wales english (gov.wales) (Accessed November 2023).

Welsh Local Government Association. (No date) *Youth Service*. Available at Youth Service - WLGA (Accessed November 2023).

Well-being of Future Generations Commissioner. (2018) *Future Generations Framework for Service design*. Available at Future Generations Framework for Service Design (gov.wales) (Accessed November, 2023).

Youth work in Wales Review Group. (2022) *Youth work in Wales: Principles and Purposes*. Available at BOOKLET (cwwys.org.uk) (Accessed November 2023).

Atodiad A

Argymhellion o'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim

Rhennir yr argymhellion yn ddwy adran. Mae'r set gyntaf o argymhellion yn ymwneud â materion llywodraethu ac mae'r ail yn rhoi mwy o sylw i ddarparu gwasanaethau gwaith ieuenctid effeithiol. O ran llywodraethu, argymhellwn y canlynol:

1. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu strwythur llywodraethu dan arweiniad pobl ifanc ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru fel ei fod yn gwrandao ar bobl ifanc ac yn gweithredu ar eu barn wrth iddo ddatblygu gwasanaethau ar eu cyfer.
2. Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau neu sefydlu seiliau deddfwriaethol newydd ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru.
3. Dylai Llywodraeth Cymru benodi Gweinidog dros Blant a Phobl ifanc yn y Cabinet a chanddo/i bortffolio ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid. Dylai'r Gweinidog arwain proses o greu gweledigaeth ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.
4. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal adolygiad annibynnol o ddigonolrwydd, tryloywder, atebolrwydd ac effeithiolrwydd cyllido a gwariant ar wasanaethau gwaith ieuenctid ar draws Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a mudiadau gwirfoddol, er mwyn asesu'r ffordd y cyflawnir deilliannau ac effaith ar gyfer pobl ifanc.
5. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu corff cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru.
6. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu partneriaethau cyflawni rhanbarthol i gefnogi darpariaeth leol.
7. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fframwaith i gefnogi arloesedd mewn gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru er mwyn gwella safonau yn y sector.
8. Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer y Cyngor Gweithlu Addysg (EWC) er mwyn cau'r bylchau yn y meini prawf ar gyfer cofrestru.

O ran darparu, argymhellwn y canlynol:

9. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector i gomisiynu cyfnewidfa wybodaeth i Gymru fel rhan o gynnig gwaith ieuenctid digidol i bobl ifanc.
10. Dylai Llywodraeth Cymru lansio Cynllun Hawliau Person Ifanc.
11. Dylai Llywodraeth Cymru a'r sector gwaith ieuenctid weithio gyda'i gilydd i hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth, o ran mynediad at wasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru, ac o ran y rôl y gall gwasanaethau gwaith ieuenctid ei chwarae yn mynd ati i herio agweddau ac ymddygiadau gwahaniaethol yn ein cymdeithas.
12. Dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy o wasanaethau gwaith ieuenctid ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai ofalu hefyd mai un o brif flaenoriaethau'r Corff Cenedlaethol fydd hyrwyddo gwasanaethau gwaith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg.
13. Mae angen i Lywodraeth Cymru adeiladu ar ei ymrwymiad i gefnogi a datblygu proffesiwn gwaith ieuenctid trwy greu strwythur gyrfaoel sy'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu.
14. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu brand gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru ac adnodd i gydlynw a hyrwyddo cyfathrebu o fewn y sector a rhwng y sector a'i bartneriaid.

Atodiad B.

Cwestiynau'r Arolwg.

Holiadur y Sector Gwirfoddol

Tudalen 1 Adolygiad o Gyllido Gwaith Ieuencid

Mae'r ymchwil pwysig hwn yn cael ei gynnal gan dîm o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, a Phrifysgol Wrecsam, ac fe'i comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru wrth ymateb i argymhelliad gan y Bwrdd Gwaith Ieuencid Interim. Nod yr ymchwil yw datblygu darlun clir a chyflawn o'r cyllid a ddarperir i gefnogi gwaith ieuencid yng Nghymru ac effaith hynny ar wasanaethau. Bydd yr hyn sy'n deillio ohono yn gosod sail ar gyfer creu model cynaliadwy ar gyfer cyllido gwaith ieuencid i'r dyfodol. I'r perwyl hwnnw, mae'n hanfodol ein bod yn cynnwys safbwyntiau o'r ystod eang o fudiadau sy'n darparu gwasanaethau gwaith ieuencid hollbwysig ar gyfer pobl ifanc Cymru.

Diolch ichi am gymryd y cyfle hwn i gynnwys profiadau eich mudiad yn yr ymchwil. Lluniwyd yr arolwg hwn gan yr Athro Mandy Robbins, Dr Robert Leigh, ac Alex Drury o Brifysgol Wrecsam. Bydd yn gofyn ichi am wybodaeth feintiol am incwm a gwariant eich mudiad, a'i allu i ddod o hyd i arian. Dylid ei lenwi gan Uwch Reolydd neu Swyddog Cyllid. Amcangyfrifir y cymer tuag 1-2 awr i'w gwblhau. Dylech nodi y gallwch wasgu'r botwm gorffen yn ddiweddarach er mwyn dod yn ôl at yr arolwg os oes angen amser arnoch i gasglu'r data cywir. Trowch at Ddatganiad Preifatrwydd Cyfranogwyr Ymchwil y Brifysgol i gael manylion llawn.

Os oes gennych unrhyw faterion ynghylch llenwi'r arolwg cysylltwch ag YWfundingreview@wrexham.ac.uk neu ffoniwch 01978 293447.

Am resymau cydraddoldeb a chysondeb data, cafodd llawer o'r cwestiynau a'r diffiniadau eu geirio i gyfateb i'r data ystadegol blynyddol a gyflwynir gan Wasanaethau Ieuencid awdurdodau lleol i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. Bydd hyn yn caniatáu inni ddatblygu, am y tro cyntaf, ddarlun Cymru gyfan. Yn ogystal â llenwi'r arolwg hwn cewch wahoddiad hefyd i gymryd rhan mewn grŵp ffocws neu gyfweiliad er mwyn casglu eich profiadau o ddod o hyd i arian a sut mae hynny'n effeithio ar wasanaethau gwaith ieuencid. Er mwyn cymryd rhan, gallwch archebu eich lle yn y digwyddiad grŵp ffocws sioe penffordd agosaf trwy gysylltu ag YWfundingreview@wrexham.ac.uk

Tudalen 2 - Mwy am eich Mudiad

- 1 **Dewiswch un o'r canlynol sy'n berthnasol ichi.** Darllenwch yn ofalus y diffiniadau rydym yn eu defnyddio ar gyfer pob un o'r rhain.

**Angenrheidiol*

- o Mudiad Cenedlaethol – Rwyf yn Uwch Reolydd mewn mudiad gwaith ieuentid yn y sector gwirfoddol sy'n gweithio mewn o leiaf 18 ardal awdurdod lleol yng Nghymru
- o Mudiad Lleol – Rwyf yn Uwch Reolydd mewn mudiad gwaith ieuentid yn y sector gwirfoddol sy'n gweithio mewn llai na 18 ardal awdurdod lleol yng Nghymru, ac mae gennym annibyniaeth ariannol.

Sylwer – Os ydych yn gangen o fudiad mwy AC NAD oes gennych annibyniaeth ariannol, rhaid i'r arolwg hwn gael ei lenwi gan y mudiad mwy. Beth yw enw eich mudiad?

2 Beth yw enw eich mudiad?

Tudalen 3 – Mwy am eich Mudiad

3 Beth yw teitl eich swydd os gwelwch yn dda

4 Ymha ardaloedd awdurdodau lleol mae eich mudiad yn gweithio?

- o Ynys Môn
- o Gwynedd
- o Conwy
- o Sir Ddinbych
- o Sir y Fflint
- o Wrecsam
- o Powys
- o Ceredigion
- o Sir Benfro
- o Sir Gaerfyrddin
- o Abertawe
- o Castell-nedd Port Talbot
- o Penybont ar Ogwr
- o Bro Morgannwg
- o Rhondda Cynon Taf
- o Merthyr Tudful
- o Caerffili
- o Blaenau Gwent
- o Torfaen
- o Sir Fynwy
- o Casnewydd
- o Caerdydd

5 A yw gweithgarwch eich mudiad yn gweddu i Egwyddorion a Phwrpasau gwaith ieuentid yng Nghymru?

Dewiswch bob un perthnasol

**Angenrheidiol*

- o Mae ein gwaith yn seiliedig ar berthynas wirfoddol rhwng pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid
- o Mae ein gwaith yn seiliedig ar Egwyddorion a Phwrpasau gwaith ieuenctid yng Nghymru
- o Mae ein gwaith yn seiliedig ar bum piler gwaith ieuenctid yng Nghymru (Addysgiadol, Mynegiannol, Cyfranogol, Cynhwysol a Grymusol)

6 Pa rai o'r gwasanaethau hyn mae eich mudiad yn eu darparu?

Dewiswch bob un perthnasol

Angenrheidiol

- o Gwasanaethau ieuenctid symudol
- o Gwasanaethau ieuenctid datgysylltiedig neu allgymorth
- o Gwaith ieuenctid mewn Ysgolion / Colegau
- o Canolfan Ieuenctid
- o Siop Wybodaeth
- o Clwb Ieuenctid
- o Arall

Os mai Arall oedd eich ateb, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

Tudalen 4 – Dod o Hyd i Arian

7 A yw eich mudiad yn wynebu unrhyw un o'r rhwystrau hyn wrth geisio dod o hyd i gyllid?

Dewiswch bob un perthnasol

Angenrheidiol

- o Mae'r cais yn rhy feichus
- o Mae'r adrodd yn rhy feichus
- o Diffyg staff
- o Diffyg arian craidd
- o Natur dymor byr y grantiau
- o Anawsterau'n cyfathrebu â chyllidwyr
- o Diffyg gwybodaeth am y cyllid sydd ar gael
- o Meini prawf cymhwysedd rhy gaeth
- o Anodd rhoi tystiolaeth o ddeilliannau
- o Cyfnodau byr ar gyfer gwneud ceisiadau
- o Talu trwy ôl daliadau
- o Taliadau'n hwyr neu'n araf
- o Arall

Os mai Arall oedd eich ateb, rhowch fanylion os gwelwch yn dda:

Ni ddylai eich ateb fod yn hirach na 100 o nodau.

8 Ymhle ydych chi'n cael gwybodaeth am ba ffynonellau cyllid sydd ar gael?

Dewiswch bob un perthnasol

Angenrheidiol

- o Llywodraeth Cymru
- o Awdurdodau Lleol
- o Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Lleol
- o CWVYS
- o WCVA
- o Funding.Cymru
- o Gan y cyrff cyllido eu hunain
- o Arall

Os mai Arall oedd eich ateb, rhowch fanylion os gwelwch yn dda:

Ni ddylai eich ateb fod yn hirach na 100 o nodau.

9 Tua faint o geisiadau am arian mae eich mudiad yn eu gwneud fel arfer bob blwyddyn?

Angenrheidiol

Rhowch rif cyfan os gwelwch yn dda (cyfanrif). Gofalwch fod y rhif rhwng 0 a 100

10 Yn fras, faint o amser mae eich mudiad yn ei dreulio'n gyffredinol yn paratoi ac ysgrifennu ceisiadau am arian? Mewn oriau staff bob blwyddyn?

**Angenrheidiol*

Rhowch rif cyfan os gwelwch yn dda (cyfanrif). Gofalwch fod y rhif rhwng 0 a 100

11 O'ch profiad chi, rhowch fanylion proses gwneud cais am arian yr ydych chi'n ei hystyried yn enghraifft o arfer da a dywedwch pam

**Angenrheidiol*

Ni ddylai eich ateb fod yn hirach na 1000 o nodau.

Tudalen 5 – Cynaliadwyedd a Chydweithio

12 A yw'r cyllid sydd ar gael yn ddigon i gwrdd ag anghenion eich mudiad a'r bobl ifanc rydych yn eu gwasanaethu?

Angenrheidiol

- o Ydy
- o Nac ydy

Esboniwch pam os gwelwch yn dda

Angenrheidiol

- 13 Pa mor hyderus ydych chi y byddwch yn gallu sicrhau arian i gynnal y lefelau presennol o wasanaethau gwaith ieuenctid y mae eich mudiad yn eu darparu?**

Angenrheidiol

Ni ddylech ddewis mwy nac 1 ateb o bob rhes. Dylech ddewis o leiaf 3 ateb.

| | Ddim yn hyderus o gwbl | Ychydig yn hyderus | Hyderus i raddau | Gweddol hyderus | Hyderus iawn |
|-----------------------|------------------------|--------------------|------------------|-----------------|--------------|
| Am y 12 mis nesaf | | | | | |
| Am y 3 blynedd nesaf | | | | | |
| Am y 10 mlynedd nesaf | | | | | |

- 14 A yw eich mudiad yn cael y cyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau gwariant awdurdodau lleol ar wasanaethau ieuenctid lleol?**

Angenrheidiol

- Ydy
- Nac ydy

Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda

Angenrheidiol

Ni ddylai eich ateb fod yn hirach na 1000 o nodau.

- 15 Ydych chi yn, neu a fuoch yn ddiweddar, wedi cydweithio â mudiadau eraill i ddod o hyd i arian a/neu ddarparu gwasanaethau?**

Angenrheidiol

- Do
- Naddo

Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda

Angenrheidiol

Ni ddylai eich ateb fod yn hirach na 1000 o nodau.

Tudalen 6 – Incwm

- 16 Gofynnir ichi ddarparu'r manylion canlynol am incwm eich mudiad ar gyfer y 3 blwyddyn ariannol diwethaf.**

Rhowch ffigyrau mewn punnoedd cyfan. Os nad yw'r union ffigyrau ar gael rhowch amcangyfrifon os gwelwch yn dda.

More info –

Please use an estimate if exact figures are not available. For example, if you received a grant of £14,121.86 you could enter £14,000.

We are trying to capture funding provided or generated for youth work in Wales. If your organisation delivers other activities as well as youth work please only use apportioned income figures.

Example 1 - 70% of your activities are youth work and 30% are parenting support. You receive a core costs grant of £20,000 to cover the management of your whole organisation. Please include this income as £14,000 (70% of £20,000).

Example 2 - Your organisation provides support to parents of children with disabilities. In addition to these activities, you receive a grant of £15,000 to provide a youth club on a Friday night for children with disabilities. This grant includes a contribution to your organisations core/overhead costs. You do not run any other youth work activities and so your total income (for youth work) that year will be £15,000.

If you are unsure whether your activities should be counted as youth work, please check the [Youth Work in Wales: Principles and Purposes document](#).

| Ffynhonnell Cyllid | Enw'r cyllidydd / ffrwd grant / adran | £ Swm 2020.21 | £ Swm 2021/22 | £ Swm 2022/23 | Cyfanswm hyd y cyllid hwn (<i>mewn misoedd neu fath 'parhaus'</i>) |
|---|---------------------------------------|---------------|---------------|---------------|--|
| <i>Dewiswch o'r fwydlen ddewisiadau</i> | | | | | |

Gwybodaeth ychwanegol

Ni ddylai eich ateb fod yn hirach na 1000 o nodau.

Drop down list options

Charitable Foundations and Trusts - please specify
The National Lottery
Generated Income e.g. from fundraising
Income from Affiliated National Organisation
Local Authority - Core Youth Service Budget
Local Authority - Education Department
Local Authority - Leisure Services
Local Authority - Social Services
Local Authority - Chief Executive
Local Authority - Housing
Other Local Authority Department - Please specify
Careers Wales
Probation Services
Health Authority
Police
Town and Community Councils
Community Safety
Youth Offending Team
Substance Misuse Team
Other Local Sources outside the Local Authority – please specify
European Funding
WCVA
WG Families First
WG Communities First / Communities First Legacy Funding
WG Strategic Voluntary Youth Work Organisations Grant
WG Youth Support Grant
WG 14-19 Pathways WG Summer of Fun / Winter of Wellbeing
WG Other - please specify
UK Government - Please specify Department / Funding Stream
Other National Sources – please specify
Other Sources - please specify

Tudalen 7 – Arian Wrth Gefn

17 Beth oedd lefel arian wrth gefn eich mudiad yn y 3 blwyddyn ariannol ddiwethaf.

Rhowch ffigyrau mewn punnoedd cyfan. Os nad yw'r union ffigyrau ar gael rhowch amcangyfrifon os gwelwch yn dda.

Angenrheidiol

2020/21 £ _____

2021/22 £ _____

2022/23 £ _____

Tudalen 8 - Gwariant

18 Gofynnir ichi lenwi'r tabl canlynol yn dangos gwariant eich mudiad ar gyfer y 3 blwyddyn ariannol diwethaf. Rhowch ffigyrau mewn punnoedd cyfan. Os nad yw'r union ffigyrau ar gael rhowch amcangyfrifon os gwelwch yn dda.

More Info –

We are trying to capture expenditure figures for youth work in Wales. If your organisation delivers other activities as well as youth work please only use apportioned expenditure figures.

Example 1 - 70% of your activities are youth work and 30% are parenting support. Your management costs are £40,000 p.a. Under youth work management staffing costs you will enter £28,000 (70% of £40,000)

Example 2 - 80% of your activities involve supporting families with young children, including early years provision. You also deliver a young person's info service (20% of your activities). Your organisation receives a capital grant of £1000,000 which you spend on construction of a new building from which you will deliver all of your activities. In the table below you enter £20,000 under capital expenditure. (20% of £100,000)

If you are unsure whether your activities should be defined as youth work, please check the [Youth Work in Wales: Principles and Purposes document](#).

Capital Expenditure - money invested by your organisation to buy or upgrade fixed, physical or non-consumable assets e.g. buildings

| | 2020.21 | 2021.22 | 2022.23 | Sylwadau |
|---|---------|---------|---------|----------|
| Staffio (staff rheoli gwaith ieuenctid) | | | | |
| Staffio (staff darparu gwaith ieuenctid) | | | | |
| Staffio (staff eraill e.e. gweinyddol) | | | | |
| Hyfforddi a datblygu staff | | | | |
| Gwariant cyfalaf | | | | |
| Adeiladau (rhent, cynnal a chadw, gwasanaethau ac unrhyw gostau eraill) | | | | |
| Adnoddau | | | | |
| Gwariant penodedig arall – rhowch fanylion | | | | |

Gwybodaeth ychwanegol

Ni ddylai eich ateb fod yn hirach na 1000 o nodau.

Tudalen 9 - Staff a Gwirfoddolwyr

- 19 **Gofynnir ichi lenwi'r tabl canlynol yn dangos niferoedd staff eich mudiad ar gyfer y 3 blwyddyn ariannol diwethaf. Os nad yw'r union ffigyrau ar gael rhowch amcangyfrifon os gwelwch yn dda. CALI = Cyfwerth ag Amser Llawn – gwasgwch ar 'mwy o wybodaeth' i gael diffiniad.**

| | 2020.21 | 2021.22 | 2022.23 |
|---|---------|---------|---------|
| CYFANSWM Staff CALI | | | |
| Staff rheng flaen / darparu gwasanaethau CALI | | | |
| Rheolwyr CALI | | | |
| Staff gweinyddol ac eraill CALI | | | |

Gwirfoddolwyr

| | 2020.21 | 2021.22 | 2022.23 |
|--|---------|---------|---------|
| | | | |

| | | | |
|---------------------------------------|--|--|--|
| Gwirfoddolwyr Cyfwerth ag Amser Llawn | | | |
|---------------------------------------|--|--|--|

Tudalen 10 – Pobl Ifanc

- 20 **Gofynnir ichi lenwi'r tabl canlynol yn dangos nifer y bobl y bobl ifanc unigol yn eich mudiad y buoch yn gweithio â nhw yn y 3 blwyddyn ariannol diwethaf. Os nad yw'r union ffigyrau ar gael rhowch amcangyfrifon os gwelwch yn dda.**

| | 2020.21 | 2021.22 | 2022.23 |
|------------|----------------|----------------|----------------|
| 11-13 oed | | | |
| 14 -16 oed | | | |
| 17-19 oed | | | |
| 20-25 oed | | | |

Nifer y bobl ifanc fesul rhywedd

| | 2020.21 | 2021.22 | 2022.23 |
|-----------|----------------|----------------|----------------|
| Gwrywaidd | | | |
| Benywaidd | | | |
| Arall | | | |

Tudalen 11 - Gorffen

Gwasgwch 'Gorffen' i gyflwyno eich atebion

Tudalen 12 – Tudalen Olaf

Diolch yn fawr! Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr amser rydych wedi'i gymryd i lenwi'r arolwg hwn, a bydd yn helpu cyfrannu at ein hymchwil i'r dyfodol. Hoffem eich gwahodd hefyd i gymryd rhan mewn grŵp trafod neu gyfweiliad gydag un o'n cydweithwyr. Bydd hyn yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o'ch profiadau o ddod o hyd i gyllid a sut mae hynny'n effeithio ar wasanaethau gwaith ieuencid. Er mwyn cymryd rhan, archebwch eich lle yn eich digwyddiad grŵp ffocws sioe penffordd agosaf trwy gysylltu ag YWfundingreview@wrexham.ac.uk

Atodiad C

Cwestiynau â Ffocws y Prif Swyddog Ieuenctid: Ionawr/Chwefror 2024

1. Sut mae gwaith ieuenctid yn cael ei ariannu drwy'r ALI – beth yw'r broses y mae'n rhaid i chi ei dilyn e.e. a roddir cyllid craidd i chi neu a ydych yn gwneud cais, a sut y gallwch wneud unrhyw gynrychiolaeth i gefnogi penderfyniadau cyllidebol.

Atebwch yma, rhowch ddolenni ychwanegol i dystiolaeth os yw ar gael:

2. A oes cyfranogiad ar lefel ranbarthol, allwch chi ddisgrifio sut rydych chi'n bwydo i mewn i unrhyw strwythurau ranbarthol neu i weithio'n ranbarthol i allu gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer rhannu cyllideb/gwneud y mwyaf o gyfleoedd hefyd i bobl ifanc.

Atebwch yma, rhowch ddolenni ychwanegol i dystiolaeth os yw ar gael:

3. I ba raddau y mae gennych gyfleoedd i weithio ar draws yr ALI yn ei gyfanrwydd i chwilio am gyfleoedd eraill ar gyfer buddsoddi/ariannu/gweithio ar y cyd i gefnogi gwaith ieuenctid?

Atebwch yma, rhowch ddolenni ychwanegol i dystiolaeth os yw ar gael:

4. Sut ydych chi'n penderfynu pa wasanaethau i'w darparu, pa sefydliadau partner / sector gwirfoddol i weithio gyda nhw/ddim yn gweithio gyda nhw? A yw hyn yn seiliedig ar anghenion ac os felly pa mor aml ydych chi'n gwirio'r anghenion hynny? A yw hyn yn flynyddol/neu fwy yn unol â chyllid 3 blynedd y GCI – os na, pam ddim?

Atebwch yma, rhowch ddolenni ychwanegol i dystiolaeth os yw ar gael:

5. Sut mae pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y broses gwneud penderfyniadau o benderfynu pa wasanaethau i'w darparu, pwy sy'n cael eu hariannu i'w darparu, a sut y cânt eu gwerthuso i sicrhau gwerth da am arian/gwasanaeth i bobl ifanc?

Atebwch yma, rhowch ddolenni ychwanegol i dystiolaeth os yw ar gael:

6. Pryderon cyffredinol/adborth am gyllid – beth sy'n gweithio'n dda, beth sydd ddim yn gweithio cystal ac unrhyw bryderon.

Atebwch yma, rhowch ddolenni ychwanegol i dystiolaeth os yw ar gael:

7. Unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu codi?

Dychwelwch eich atebion i gwestiynau'r arolwg erbyn 7 Chwefror i alex.drury@glyndwr.ac.uk

Atodiad D

Grwpiau Ffocws Mudiadau Gwirfoddol Lleol/Cwestiynau cyfweiliad

- i. Beth fyddech chi'n ei ddweud am lefelau cyllid ar gyfer gwaith ieuenctid yn eich ardal, a oes unrhyw enghreifftiau yr hoffech eu darparu?
- ii. Pa mor dda y mae'r prosesau sy'n ymwneud â chyllid, gan yr awdurdod lleol, cyllidwyr craidd, cyllidwyr allanol neu gyllidwyr eraill yn bodloni'ch anghenion a'ch gofynion? Enghreifftiau?
- iii. Sut mae penderfyniadau gwariant yn cael eu gwneud ar draws y gwasanaeth ieuenctid yn eich ardal chi? (Gan gynnwys cydweithrediadau rhwng sectorau gwirfoddol a chynaleddig?) Anogwr - A ydych yn ymwybodol bod cyllid ar gael o ffynonellau eraill gan gynnwys iechyd, CSP, addysg, SPF.
- iv. Sut mae llywodraethu gwaith ieuenctid yn gweithio yn eich ardal leol?
- v. Beth mae eich sefydliad yn ei wneud i gefnogi gwaith sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol a sut mae'r gwasanaeth ieuenctid a gynhelir neu sefydliadau eraill yn eich cefnogi i wneud y gwaith hwnnw? Pam? Effaith ddisgwyliedig? Ariannu? Asesiad angen?
- vi. Beth mae eich sefydliad yn ei wneud i hybu gwaith yn ymwneud ag iechyd pobl ifanc a sut mae'r gwasanaeth ieuenctid a gynhelir neu sefydliadau eraill yn eich cefnogi i gyflawni'r gwaith hwnnw? Pam? Effaith ddisgwyliedig? Ariannu? Asesiad angen?
- vii. Beth mae eich sefydliad yn ei wneud i gefnogi gwaith sy'n ymwneud â llesiant pobl ifanc a sut mae'r gwasanaeth ieuenctid a gynhelir neu sefydliadau eraill yn eich cefnogi i gyflawni'r gwaith hwnnw? Pam? Effaith ddisgwyliedig? Ariannu? Asesiad angen?
- viii. Beth mae eich sefydliad yn ei wneud i gefnogi gwaith yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant a sut mae'r gwasanaeth ieuenctid a gynhelir neu sefydliadau eraill yn eich cefnogi i gyflawni'r gwaith hwnnw? Pam? Effaith ddisgwyliedig? Ariannu? Asesiad angen?
- ix. Beth mae eich mudiad yn ei wneud i gefnogi cymunedau cryf a gwirfoddoli a sut mae'r gwasanaeth ieuenctid a gynhelir neu sefydliadau eraill yn eich cefnogi i wneud y gwaith hwnnw? Pam? Effaith ddisgwyliedig? Ariannu? Asesiad angen?
- x. Beth mae eich sefydliad yn ei wneud i gefnogi gwaith sy'n ymwneud â'r agenda tai a sut mae'r gwasanaeth ieuenctid a gynhelir neu sefydliadau eraill yn eich cefnogi i gyflawni'r gwaith hwnnw? Pam? Effaith ddisgwyliedig? Ariannu? Asesiad angen?

1. fewn cwmpas yr adolygiad ariannu, a oes unrhyw beth yr hoffech inni ymchwilio iddo nad yw wedi'i godi eisoes?

Diolch am eich amser!